Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Cefnogi disgyblion mwy abl a thalentog

## Sut orau i herio a meithrin disgyblion mwy abl a thalentog: Cyfnodau allweddol 2 i 4

Mawrth 2018



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |


| | |
| --- | --- |
| Cyflwyniad | 1 |
| Cefndir | 1 |
| Prif faterion | 3 |
| Arfer effeithiol | 6 |
| Cwestiynau ar gyfer darparwyr | 15 |
| 1 Safonau | 16 |
| 2 Darpariaeth | 19 |
| 3 Arweinyddiaeth a rheolaeth | 27 |
| 4 Cymorth a her i ysgolion | 30 |
| Astudiaethau achos arfer effeithiol | 33 |
| Atodiad 1: Sail y dystiolaeth | 43 |
| Atodiad 2: Data perfformiad cyfnod allweddol 2 i 4 | 44 |
| Geirfa | 47 |
| Cyfeiriadau | 50 |

## Cyflwyniad

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn archwilio safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth o ran bodloni anghenion disgyblion mwy abl a thalentog mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru. Mae'n rhoi arfarniad o gynnydd yn erbyn yr argymhellion ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol yn adroddiadau arolwg blaenorol Estyn ar gynorthwyo disgyblion mwy abl a thalentog yn 2011 a 2012.

Mae'r adroddiad yn nodi'r modd y mae ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru yn herio a meithrin disgyblion mwy abl a thalentog yn llwyddiannus yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4. Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos o arfer effeithiol i ysgolion eu hystyried. Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

Mae canfyddiadau'r adroddiad yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth o arolygiadau ysgolion cynradd ac uwchradd. Yn ychwanegol, fe wnaeth arolygwyr ymweld ag ystod o ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru, a chynnal cyfweliadau dros y ffôn â nhw. Bu arolygwyr yn arsylwi gweithgareddau dysgu, yn cyfweld â disgyblion, athrawon ac arweinwyr ysgol, ac yn craffu ar gynllunio, gwaith disgyblion a dogfennau ysgol eraill. Cafodd arolygwyr dystiolaeth gan gynrychiolwyr o bob consortiwm rhanbarthol hefyd (Atodiad 1).

## Cefndir

Defnyddir y term 'mwy abl a thalentog' yng Nghymru i gyfeirio at ddisgyblion sy'n fwy abl ar draws y cwricwlwm, a'r rheiny sy'n dangos gallu neu ddawn arbennig mewn maes penodol neu fwy, fel celf, cerddoriaeth, drama neu chwaraeon (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC), 2003). Gallai disgyblion ddangos medrau arwain, gwaith tîm neu entrepreneuraidd eithriadol o dda hefyd. Mae'n cyfeirio at ryw 20% o ddisgyblion sydd angen cyfleoedd cyfoethog ac estynedig ar draws y cwricwlwm i ddatblygu eu galluoedd mewn un maes neu fwy.

Nododd arolygon blaenorol Estyn o gymorth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog mewn ysgolion cynradd (Estyn, 2011) ac ysgolion uwchradd (Estyn, 2012) mai ychydig o ysgolion yn unig sy'n darparu'n dda ar gyfer y disgyblion hyn i'w galluogi i gyflawni eu potensial. Yn yr ysgolion prin lle mae disgyblion mwy abl a thalentog yn cyflawni'n arbennig o dda, mae pob un o'r disgyblion yn tueddu i gyflawni safonau uchel.

Yn 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru arweiniad ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol ar y cyd â'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Abl mewn Addysg (NACE Cymru) o'r enw, 'Cyflawni'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion mwy Galluog a Thalentog' (Llywodraeth Cymru, 2008). Dilynwyd

hyn yn 2012 gyda chyfres o ddeunyddiau datblygiad proffesiynol a hyfforddiant i gynorthwyo ysgolion ac awdurdodau lleol i wella eu darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog (Llywodraeth Cynulliad Cymru a NACE Cymru, 2012).

Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol i sefydlu'r strategaethau a ddefnyddir gan ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol ledled Cymru i nodi, cynorthwyo, herio, monitro a herio dysgwyr mwy abl a thalentog.  Daeth ei hadroddiad terfynol (Llywodraeth Cymru, 2015) i'r casgliad fod amrywiad sylweddol yn bodoli mewn darpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog ar draws ysgolion.

Yn 2016, arolygodd Estyn y consortia rhanbarthol.  Nododd Estyn ddiffygion mewn tri o'r pedwar consortiwm o ran eu defnydd o ddata a/neu weithdrefnau olrhain er mwyn herio a chynorthwyo ysgolion i wella perfformiad grwpiau o ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny sy'n fwy abl a thalentog.

# Prif faterion

## Safonau

1 Pan mae deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yn gryf iawn, mae disgyblion yn ddysgwyr annibynnol hynod ymroddgar. Maent yn datblygu a chymhwyso medrau a gwybodaeth ddatblygedig yn hyderus mewn sefyllfaoedd newydd ac ar draws meysydd dysgu. Defnyddiant eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithlon, ac yn aml yn greadigol, yn eu gwaith.

2 Bron ym mhob un o'r ysgolion lle mae disgyblion mwy abl a thalentog yn cyflawni'n dda, mae disgyblion yn gwneud dewisiadau tra ystyriol am sut a beth maent yn ei ddysgu. Maent yn arfarnu beth i'w wneud i wella'u gwaith ac yn datblygu synnwyr brwd o gyfrifoldeb ar gyfer datblygu eu dysgu eu hunain. Fodd bynnag, mewn tua thraean o ysgolion, nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni cystal ag y dylent neu'n defnyddio'u medrau i lefel sy'n cyd-fynd â'u gallu.

3 Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, mae merched mwy abl yn perfformio'n well na bechgyn ar y lefelau uwch ac nid yw disgyblion mwy abl sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â disgyblion eraill sy'n fwy abl. Erbyn diwedd cyfnodau allweddol 2 a 3, mae asesiadau athrawon yn dangos bod cyflawniadau disgyblion ar y lefelau uwch na'r disgwyl wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn er 2012 (Llywodraeth Cymru, 2017a a 2017b). Yng nghyfnod allweddol 4, mae canran y disgyblion sy'n ennill pum cymhwyster TGAU A*-A (neu gyfwerth) wedi cynyddu yn 2017, ar ôl cyfnod o ddirywiad yn y blynyddoedd diwethaf (Llywodraeth Cymru, 2017c). I gael rhagor o fanylion, gweler Atodiad 2.

## Darpariaeth

4 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac uwchradd ddealltwriaeth briodol, ar y cyd, o sut maent yn diffinio disgyblion 'mwy abl a thalentog' yn eu hysgolion unigol.

5 Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae staff yn darparu ystod werthfawr o weithgareddau cyfoethogi ac allgyrsiol i ddarparu ar gyfer anghenion disgyblion sydd â medrau mwy datblygedig. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae ysgolion yn rhoi mwy o bwyslais ar ddarpariaeth ar gyfer disgyblion 'mwy abl' nag y maent ar gyfer disgyblion 'talentog'. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer 'disgyblion talentog' yn parhau i fod yn gyfyngedig mewn llawer o ysgolion ledled Cymru. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae newidiadau i'r cwricwlwm, er enghraifft cyflwyno'r fframwaith llythrennedd a rhifedd (FfLlRh: Llywodraeth Cymru, 2013) a phrofion cenedlaethol mewn darllen a rhifedd, wedi arwain at gyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol, chwaraeon a thechnolegol.

6 Mewn ysgolion sydd fwyaf llwyddiannus o ran herio disgyblion mwy abl a thalentog, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o bob un o'r disgyblion. Maent yn cynllunio a pharu gwaith i alluoedd disgyblion unigol yn eithriadol o dda a defnyddiant ddeilliannau asesiadau'n fedrus i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion. Fodd bynnag, mae gormod o athrawon nad ydynt yn sicrhau bod digon o her mewn tasgau i ymestyn disgyblion mwy abl a thalentog.

7 Gall cofrestru'n gynnar ar gyfer arholiadau TGAU helpu disgyblion mwy abl sydd wedi meistroli cynnwys pwnc cyn diwedd eu cwrs astudio. Mae llawer o'r disgyblion hyn yn cyflawni graddau uchel iawn ac wedyn yn mynd yn eu blaenau i ddilyn cymwysterau ychwanegol neu astudio ymhellach ar gyfradd garlam, er enghraifft mewn mathemateg. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn ystyried anghenion unigol disgyblion yn ddigon da wrth eu cofrestru'n gynnar ar gyfer arholiadau.

8 Mae gan lawer o ysgolion weithdrefnau clir a systematig ar gyfer nodi cryfderau penodol disgyblion gan ddefnyddio ystod eang o wybodaeth. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn olrhain cynnydd disgyblion mwy abl yn dda. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn ysgolion ble mae disgyblion mwy abl yn cyflawni safonau uchel, ychydig iawn ohonynt sy'n monitro ac yn olrhain cyflawniadau a chynnydd disgyblion talentog.

9 Pan fydd ysgolion yn rhoi pwyslais cryf ar feithrin disgyblion mwy abl a thalentog, mae staff yn darparu cyfleoedd rheolaidd a chymorth strwythuredig ar gyfer disgyblion i rannu unrhyw bryderon, heriau neu rwystrau y maent yn eu hwynebu. Maent yn helpu disgyblion i oresgyn y rhain yn sensitif, er enghraifft trwy ymyrraeth dargedig fel mentora neu hyfforddi. Fodd bynnag, mae hyn yn digwydd mewn ychydig iawn o ysgolion yn unig.

10 Mae cyfle i elwa ar ddarpariaeth ychwanegol a chymorth targedig sy'n berthnasol i anghenion disgyblion mwy abl a thalentog yng nghyfnodau allweddol 2 i 4 yn anghyson ledled Cymru. Mae ansawdd ac ehangder cyfleoedd ychwanegol yn dibynnu gormod ar y medrau a'r adnoddau mewn ysgolion unigol yn hytrach na bod yn ddisgwyliad systematig ar draws ysgolion ac o fewn rhanbarthau.

11 At ei gilydd, mewn llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd, mae gweithio mewn partneriaeth yn gryfder. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion cynradd ac uwchradd yn defnyddio ystod eang o bartneriaid i wella profiadau dysgu disgyblion mwy abl a thalentog. Fodd bynnag, yn aml, nid yw ysgolion yn datblygu prosesau i arfarnu effaith prosiectau ar y cyd neu weithio mewn partneriaeth ar ddeilliannau ar gyfer y disgyblion hyn yn ddigon da.

12 Mae rhai ysgolion yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni, fel eu bod yn gwybod sut gallant gefnogi addysg eu plentyn mwy abl neu dalentog. Fodd bynnag, nid yw llawer o ysgolion yn rhoi digon o sylw i ymgysylltu â rhieni disgyblion mwy abl a thalentog o bob cefndir fel partneriaid yn nysgu eu plant.

13 Ers adroddiadau blaenorol Estyn (Estyn 2011 a 2012), ni wnaed digon o gynnydd mewn tua hanner o ysgolion cynradd ac uwchradd i adeiladu ar drefniadau pontio i ddarparu her effeithiol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yng nghyfnod allweddol 3. Yn gyffredinol, mae gormod o athrawon uwchradd nad ydynt yn darparu digon o barhad a dilyniant yn nysgu'r disgyblion.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

14 Mae ansawdd darpariaeth ysgolion ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yn dibynnu ar arweinwyr effeithiol i roi pwyslais priodol ar wella safonau a darpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn. Pan fydd hyn yn digwydd, mae ysgolion wedi datblygu dulliau hynod lwyddiannus ar draws yr ysgol gyfan. Er enghraifft, defnyddiant gyllid grant fel y grant datblygu disgyblion a'r cynllun ysgolion creadigol arweiniol i gynorthwyo a meithrin y disgyblion hyn i gyflawni'n dda. Mae staff ysgol yn cymryd rhan yn

effeithiol mewn profiadau dysgu proffesiynol i gynorthwyo disgyblion mwy abl a thalentog. Maent yn ymgysylltu'n dda â sefydliadau allanol hefyd fel NACE Cymru i ddatblygu agweddau ar eu harfer.

15 Mewn rhai ysgolion, mae arweinwyr a staff wedi adolygu eu polisïau a'u harferion i fodloni anghenion disgyblion mwy abl a thalentog, fel rhan o ystyriaeth ehangach i werthoedd a nodau eu hysgol yng nghyd-destun diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru.

16 Pan fydd diffygion mewn darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod cynllunio strategol yn rhoi sylw digon da i gynorthwyo staff i fodloni anghenion y disgyblion hyn. O ganlyniad, mae arferion ar gyfer herio a meithrin eu cynnydd yn amrywio gormod rhwng dosbarthiadau mewn ysgolion cynradd ac yn ôl dosbarth ac adran mewn ysgolion uwchradd. Ledled Cymru, megis dechrau datblygu y mae cydweithio o un ysgol i'r llall, sy'n canolbwyntio ar y ffordd orau o fodloni anghenion disgyblion mwy abl a thalentog.

17 Mewn tua thraean o ysgolion cynradd ac mewn mwyafrif o ysgolion uwchradd, mae prosesau ar gyfer gwella ansawdd yn wan. Nid oes digon o ysgolion yn monitro ac yn arfarnu pa mor dda y mae eu darpariaeth yn bodloni anghenion disgyblion mwy abl a thalentog yn ddigon trylwyr.

### Cymorth a her i ysgolion

18 Mae cymorth gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ddatblygu darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog wedi bod yn anghyson, a than yn ddiweddar iawn, roedd yn derbyn llai o sylw nag adeg adroddiadau thematig blaenorol Estyn (Estyn, 2011 a 2012). Y rheswm am hyn yw bod consortia addysg wedi gor-bwysleisio ffocws ar wella deilliannau academaidd ar drothwyau cyrhaeddiad 'disgwyliedig' i ymateb i fesurau perfformiad cenedlaethol. O ganlyniad, ni roddir cyfle digon da i ddisgyblion mwy abl a thalentog elwa ar brofiadau dysgu priodol ar draws rhanbarthau a ledled Cymru. Wedi i ni fonitro'r consortia yn ddiweddar, gwelwyd bod mwy o bwyslais erbyn hyn ar ystod gyfan y dangosyddion perfformiad wrth ystyried deilliannau disgyblion.

19 Pan mae ysgolion wedi defnyddio deunyddiau hyfforddi a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a NACE Cymru (Llywodraeth Cymru a NACE Cymru, 2012), mae'r rhain wedi cefnogi datblygu darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yn dda. Fodd bynnag, ychydig iawn o effaith y mae'r arweiniad hwn wedi'i chael ar waith awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gydag ysgolion.

20 Mae cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru, 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl 2017-21' (Llywodraeth Cymru, 2017d) yn rhoi pwyslais gwerthfawr ar yr angen i wella ansawdd yr addysgu trwy ddysgu proffesiynol i fodloni anghenion dysgwyr mwyaf abl Cymru. Mae'r cynllun yn nodi 'ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles' fel un o'i amcanion galluogi allweddol (Llywodraeth Cymru, 2017d, tud.31). Fodd bynnag, nid yw ysgolion bob amser yn glir ynglŷn â sut gallant fod yn gynhwysol a theg i bob disgybl tra byddant, ar yr un pryd, yn bodloni anghenion eu disgyblion mwy abl a thalentog y gallai fod angen cyfleoedd ychwanegol arnynt.

## Arfer effeithiol

21 Mae’r adran hon yn disgrifio nodweddion cyffredin arfer effeithiol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog mewn ysgolion yng Nghymru.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

**Nodweddion cyffredin addysgu a phrofiadau dysgu effeithiol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog:**

- Diffiniad ysgol gyfan cytûn a dealltwriaeth ar y cyd o’r term ‘mwy abl a thalentog’
- Athroniaeth ysgol gyfan gyson ar gyfer bodloni anghenion disgyblion mwy abl a thalentog y mae pob un o’r staff yn ei deall yn dda
- Cyfleoedd dysgu eang ac amrywiol er mwyn i ddisgyblion mwy abl a thalentog ddatblygu i lefel uchel iawn mewn medrau academaidd, chwaraeon, creadigol a thechnolegol
- Profiadau dysgu ysgogol a heriol sy’n hyrwyddo annibyniaeth, medrau datrys problemau, meddwl a chydweithio disgyblion yn effeithiol ac yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd neu TGCh disgyblion i lefel uchel hefyd
- Defnydd hyblyg o grwpiau a thasgau sy’n galluogi disgyblion mwy abl a thalentog i ddyfnhau eu gwybodaeth ac atgyfnerthu ac ymestyn eu medrau ar lefel briodol
- Disgwyliadau uchel o gyflawniad disgyblion a defnyddio ystod o strategaethau creadigol i herio ac ymestyn dysgu’r disgyblion
- Holi o ansawdd uchel, sy’n procio a herio meddwl disgyblion
- Gwybodaeth bynciol ac arbenigedd addysgu cryf iawn, er enghraifft dealltwriaeth o addysgeg effeithiol ar gyfer disgyblion mwy abl neu dalentog mewn pwnc neu faes dysgu penodol
- Gweithgareddau cyfoethogi a defnyddio arbenigwyr pwnc i wella addysgu a dysgu, lle bo’n briodol
- Defnydd eithriadol o dda o asesu i lywio cynllunio athrawon fel ei fod yn bodloni anghenion disgyblion unigol
- Adborth o ansawdd uchel i ddisgyblion sy’n helpu meithrin eu medrau myfyriol ac arfarnol

22 Mae'r ysgolion mwyaf effeithiol yn rhoi graddau uchel o ymreolaeth i ddisgyblion mwy abl a thalentog o fewn cynllunio tymor hwy sydd wedi'i strwythuro'n ofalus. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael cwricwlwm sy'n briodol eang a chytbwys sy'n datblygu eu gwybodaeth a'u medrau'n raddol, tra'n eu galluogi i wneud dewisiadau a dilyn eu diddordebau eu hunain hefyd.

**Wythnosau 'Dysgu gyda'n gilydd': Dull ysgol gyfan o fodloni anghenion disgyblion mwy abl a thalentog mewn ysgol gynradd**

Mae ysgol gynradd yn cynnal wythnos 'Dysgu gyda'n gilydd' ddwywaith y flwyddyn. Mae'r wythnos hon wedi'i chynllunio i ysgogi a chymell pob disgybl i ddysgu, a rhoi cyfle i ddisgyblion mwy abl a thalentog gymryd perchnogaeth o gynllunio'r cwricwlwm i gyrraedd nodau dysgu cytûn. Mae'r ysgol gyfan yn gweithio ar thema am yr wythnos, er enghraifft : 'Rhannu eich angerdd' a 'Cynnal sioe'. Mae athrawon yn darparu'r thema ysgol gyfan a datganiadau sy'n addas ar gyfer disgyblion am y medrau llythrennedd a rhifedd y mae'n rhaid i ddisgyblion ym mhob dosbarth eu datblygu yn ystod yr wythnos. Mae gan ddisgyblion ymreolaeth lawn dros yr hyn y maent yn ei ddysgu, a sut maent yn cynrychioli eu dysgu, gan gynnwys trefnu ac arwain gweithgareddau i rieni gymryd rhan ynddynt ar ddiwrnod olaf yr wythnos.

Yn ystod wythnos ddysgu 'Cynnal sioe', mae disgyblion Blwyddyn 3 yn ymchwilio i garnifalau o gwmpas y byd, yn gwneud posteri gwybodaeth gan ddefnyddio TGCh, yn dysgu dawnsiau Brasilaidd ac yn ysgrifennu cerdd ddosbarth, y maent yn ychwanegu symudiadau ati ar gyfer perfformiad dosbarth cyfan. Mae disgyblion Blwyddyn 4 yn dewis astudio'r etholiad cyffredinol. Maent yn ymchwilio i'r Senedd a'i gwaith celf enwog. Maent yn creu eu 'pleidiau' eu hunain ar gyfer etholiad ac yn datblygu strategaethau ymgyrchu mewn tri thîm gydag elfen gomedïaidd. Ym Mlwyddyn 5, mae disgyblion yn creu sgript deledu yn seiliedig ar Doctor Who, sy'n dangos ymwybyddiaeth gref o gonfensiynau ysgrifennu sgriptiau, ac mae disgyblion Blwyddyn 6 yn tywys rhieni 'yn ôl i'r gorffennol' gyda phrosiect yn seiliedig ar y 1960au i'r 1990au.

Ar draws pob dosbarth, mae disgyblion mwy abl a thalentog yn cymryd yr awenau'n gryf o ran cynllunio a threfnu'r gwaith. Mae hyn yn datblygu eu medrau arwain, gan gynnwys gwneud penderfyniadau, trefnu a chynorthwyo timau, rheoli gwrthdaro a bodloni terfynau amser, yn ogystal â datblygu medrau llythrennedd a rhifedd craidd.

Mae nifer dda o rieni'n mynychu'r digwyddiad olaf ar y dydd Gwener, ac maent yn cymryd rhan weithredol yn y gweithgareddau y mae'r disgyblion wedi'u cynllunio ar eu cyfer.

23 Mae ysgolion effeithiol yn cynllunio gweithgareddau cyfoethogi ychwanegol priodol er mwyn i ddisgyblion mwy abl a thalentog ymestyn eu dysgu. Caiff y dulliau cyfoethogi hyn effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad a hunan-barch disgyblion.

**Ymestyn medrau llythrennedd disgyblion sy'n fwy abl mewn Saesneg**

Mae ysgol uwchradd yn darparu rhaglen cyfoethogi llythrennedd ble mae cynorthwyydd addysgu lefel uwch yn ymestyn medrau llythrennedd disgyblion sy'n fwy abl mewn Saesneg. Mae'r cynorthwyydd yn ymweld â'r holl ysgolion cynradd partner ac yn gweithio'n agos ag athrawon cynradd i nodi disgyblion Blwyddyn 6 sy'n fwy abl mewn Saesneg cyn iddynt symud i gyfnod allweddol 3. Defnyddir y deilliannau o'r profion darllen cenedlaethol ac asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 i gynorthwyo'r broses nodi. Mae'r cynorthwyydd yn gweithio gyda'r disgyblion hyn mewn grwpiau wrth iddynt symud trwy Flynyddoedd 7, 8 a 9 i astudio amrywiaeth o destunau llenyddiaeth ychwanegol i ymestyn eu medrau meddwl a datblygu eu medrau llythrennedd lefel uwch. Er enghraifft, mae disgyblion yn adolygu gweithiau awduron gwobr Carnegie. Mae'r gweithgareddau hyn yn ysgogi a chynnal diddordeb disgyblion mwy abl. Maent yn elwa'n llwyddiannus ar ddarllen a thrafod amrywiaeth ehangach o lenyddiaeth nag y byddent fel arfer yn cael profiad ohoni mewn grwpiau bach a ffocysedig. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn mewn Saesneg trwy gydol cyfnod allweddol 3 ac maent yn cyflawni safonau uchel mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu'r grwpiau hyn yn mynd yn eu blaenau i gyflawni gradd A* mewn Saesneg TGAU.

**Ymestyn medrau rhifedd disgyblion sy'n fwy abl mewn mathemateg**

Mae ysgol gynradd yn darparu rhaglen cyfoethogi rhifedd ble mae cynorthwyydd addysgu lefel uwch sydd â phrofiad addysgu ysgol uwchradd yn ymestyn medrau rhifedd disgyblion sy'n fwy abl mewn mathemateg. Mae'r cynorthwyydd yn arwain sesiynau grŵp bach ddwywaith yr wythnos, gyda ffocws ar ddatrys problemau yn gysylltiedig â'r cysyniadau mathemategol y mae'r disgyblion mwy abl yn eu hastudio yn y dosbarth.

Mae disgyblion sy'n mynychu'r grwpiau hyn yn llawn cymhelliant ac yn mwynhau datblygu eu medrau rhesymu a chystadlu â'i gilydd. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae disgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd da iawn mewn mathemateg ym Mlwyddyn 6, gyda rhai disgyblion yn cyflawni lefel 6 erbyn diwedd y cyfnod allweddol.

## Nodi, olrhain a chymorth

24 Mae dulliau asesu hynod drylwyr gan ysgolion sy'n darparu her eithriadol o dda ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau clir a systematig ar gyfer nodi cryfderau disgyblion gan ddefnyddio ystod eang o wybodaeth, gosod targedau cadarn a monitro ac olrhain cynnydd a chyflawniadau disgyblion yn effeithiol dros gyfnod.

**Meini prawf ar gyfer nodi disgyblion mwy abl a thalentog mewn pynciau uwchradd**

Mae arweinwyr mewn ysgol uwchradd wedi datblygu meini prawf manwl ar gyfer nodi disgyblion mwy abl a thalentog ar gyfer pob pwnc a gefnogir gan NACE. Mae pob adran yn defnyddio'r meini prawf hyn yn gyson i nodi disgyblion. Mae athrawon yn rhoi'r disgyblion hyn ar gofrestr disgyblion mwy abl a thalentog yr ysgol. Er enghraifft, mewn TGCh, mae staff yn chwilio am, ac yn nodi'r, disgyblion hynny sydd:

- **yn dangos gallu mewn TGCh sy'n sylweddol uwchlaw'r hyn sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran**
- **yn dysgu a chymhwyso technegau TGCh newydd yn gyflym**: er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio allweddi llwybr byr ar gyfer tasgau arferol yn effeithiol ac yn briodol; maent yn cymhwyso technegau yn gyflym ar gyfer integreiddio cymwysiadau fel postgyfuno a chronfeydd data
- **yn defnyddio blaengaredd i elwa ar botensial nodweddion mwy datblygedig offer TGCh**: er enghraifft, mae disgyblion yn ymchwilio i god ffynhonnell HTML gwefan ac yn cymhwyso nodweddion fel rhifyddion neu fframiau i'w dyluniadau gwe eu hunain
- **yn trosglwyddo a chymhwyso medrau a thechnegau TGCh yn hyderus mewn cyd-destunau newydd**: er enghraifft, maent yn adnabod potensial cymhwyso modelu taenlenni o'u gwaith mathemateg i ymchwiliad gwyddoniaeth
- **yn archwilio'n annibynnol y tu hwnt i ehangder penodol testun TGCh**
- **yn dechrau syniadau a datrys problemau, yn defnyddio TGCh yn effeithiol ac yn greadigol, ac yn datblygu systemau sy'n bodloni anghenion a diddordebau personol**: er enghraifft, maent yn creu gwefan cefnogwyr ryngweithiol sy'n anfon cylchlythyr misol at danysgrifwyr electronig sydd naill ai'n gweithio ar eu pen eu hunain, neu ar y cyd â chyfoedion

Trwy gydol cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae staff yn adolygu'r gofrestr bob tymor. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd rheolaidd ac amserol iddynt ychwanegu disgyblion at y gofrestr pan fydd angen, gan gydnabod bod disgyblion yn datblygu ar gyflymdra gwahanol. Pan fydd athrawon yn pryderu am safonau neu gynnydd disgyblion ar y gofrestr, mae arweinwyr yn dechrau trafodaeth yn yr adran i ganfod yr achos. Pan fydd problemau'n bodoli, gallai athrawon symud disgyblion i 'gofrestr gysgodi'. Mae hyn yn cynnwys meini prawf clir a phenodol hefyd. Mae arweinwyr yn defnyddio'r gofrestr hon i ddarparu cymorth pwrpasol ar gyfer unigolion, fel ymyrraeth academaidd, mentora neu gymorth lles. Mae'r arferion hyn yn sicrhau bod y rheiny y nodwyd eu bod yn fwy abl yn parhau i gael cymorth pan fydd angen.

25 Mae’r ysgolion mwyaf llwyddiannus yn cefnogi lles disgyblion sy’n fwy abl a thalentog yn benodol. Maent yn ymwybodol o’r rhwystrau neu’r heriau a allai fod yn wynebu disgyblion mwy abl a thalentog, er enghraifft pwysau gan gyfoedion i beidio ag ymddangos yn ‘glyfar’, yn sgil ofni cael eu hynysu, neu ddiffyg hyder i siarad â phobl eraill.

**Mae gweithdy TGCh rhwng y cenedlaethau yn datblygu hyder disgyblion mwy abl**

Nododd un ysgol gynradd grŵp bach o ddisgyblion Blwyddyn 6 mwy abl sydd â medrau TGCh eithriadol o dda ond nad oeddent yn hyderus i siarad ag oedolion. Trefnodd arweinwyr ‘weithdy TGCh rhwng y cenedlaethau’ ar gyfer disgyblion i gynorthwyo eu neiniau a’u teidiau. Cynlluniwyd y sesiwn gan ddisgyblion, a buont yn dysgu medrau sylfaenol i’r ymwelwyr, fel sut i dynnu lluniau â dyfais llechen, sut i chwilio ar y rhyngrwyd a sut i ddefnyddio cymwysiadau recordio cerddoriaeth a fideo. Cafodd hyn effaith gref ar wella medrau rhynbersonol a lefelau hyder disgyblion mwy abl.

**Meithrin disgyblion mwy abl a thalentog trwy gynadleddau un i un rhwng disgyblion ac athrawon yng nghyfnod allweddol 2**

Mae arweinwyr mewn ysgol gynradd yn trefnu cyfarfodydd un i un rhwng disgyblion a’u hathrawon unwaith y tymor. Yn y cyfarfodydd hyn, mae athrawon yn trafod proffil un dudalen gyda phob disgybl unigol. Mae’r proffiliau’n cynnwys gwybodaeth am gynnydd a chyflawniadau disgyblion, eu hagweddau at ddysgu, eu hymddygiad a’u presenoldeb. Gyda’i gilydd, mae’r athro a’r disgybl yn trafod a chytuno ar dargedau ar gyfer y tymor nesaf ac yn siarad am sut gallai’r disgybl gyflawni’r rhain.

Mae’r gynhadledd hefyd yn rhoi cyfle i’r athro a’r disgybl drafod unrhyw faterion a allai rwystro cynnydd y disgybl a chanfod ffordd o ddatrys hyn, er enghraifft disgybl mwy abl sy’n ei chael yn anodd delio â phwysau gan gyfoedion ac nid yw eisiau ymddangos yn ‘glyfar’ o flaen ei gyfoedion/chyfoedion.

Mae disgyblion mwy abl ar draws cyfnod allweddol 2 yn siarad yn fanwl am y modd y mae’r cynadleddau hyn yn eu helpu i wneud cynnydd yn eu dysgu a’r effaith gadarnhaol a gânt ar eu lles.

26 Mae ychydig iawn o ysgolion uwchradd yn cynorthwyo disgyblion mwy abl a thalentog yn effeithiol trwy ddefnyddio systemau cyfeillion ar draws sectorau. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion hŷn sy’n gweithredu fel cyfeillion yn gwella’u medrau cyfathrebu ac yn datblygu medrau meddwl effeithiol. Mae’r cyfeillion iau yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd effeithiol ac, yn y rhan fwyaf o achosion, y tu hwnt i’r rheiny sy’n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran.

**Systemau cyfeillion ar draws sectorau i gynorthwyo disgyblion mwy abl a thalentog mewn ysgolion uwchradd**

Mae Ysgol A yn cynnal system ‘cyfeillion’ effeithiol ar draws sectorau i gynorthwyo disgyblion sy’n fwy abl. Mae arweinwyr yn paru disgyblion mwy abl ym Mlwyddyn 12 gyda’r rheiny yng nghyfnod allweddol 3. Mae’r ‘cyfeillion’ yn cyfarfod bob wythnos o leiaf. Mae penaethiaid blwyddyn yn cyfarfod â disgyblion Blwyddyn 12 i drafod y meysydd y mae angen iddynt ganolbwyntio arnynt. Yn ystod y sesiwn wythnosol, mae disgyblion yn canolbwyntio ar flaenoriaethau sy’n briodol i’r unigolyn, fel techneg arholiadau neu waith estynedig pynciol. Mae athrawon yn darparu llyfrynnau ymarferion i hwyluso’r sesiynau, ond gall y cyfeillion ganolbwyntio ar feysydd y mae angen mwy o her neu gymorth ar y disgybl iau, yn eu barn nhw. Mae arweinwyr yn arfarnu’r gwaith hwn yn fanwl, gan gynnwys cynnal cyfweliadau fideo gyda’r disgyblion dan sylw, er enghraifft.

Yn Ysgol B, o leiaf unwaith yr wythnos, mae pob un o’r disgyblion y nodwyd eu bod yn fwy abl ym Mlwyddyn 7 yn cyfarfod â ‘chyfaill’ o Flwyddyn 12 y nodwyd hefyd ei fod yn fwy abl yn yr un meysydd pwnc. Mae’r un system yn gweithredu rhwng disgyblion ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 13. Mae arweinwyr yn rhoi llyfr gwaith i’r cyfeillion y gallant weithio trwyddo i helpu datblygu medrau pwysig. Mae’r system effeithiol hon yn cynnig her i’r disgyblion iau. Yn eu tro, mae disgyblion hŷn yn gwella’u medrau cyfathrebu a’u medrau meddwl, wrth iddynt ddatblygu esboniadau ar gyfer cysyniadau anodd. Mae’r system yn caniatáu ar gyfer mentora a lles gwell hefyd. Mae’r disgyblion iau yn mwynhau cael ‘cyfaill’ hŷn y gallant ymddiried ynddo a gofyn cwestiynau iddo/iddi, er enghraifft am arholiadau a gwaith cartref. Mewn ychydig iawn o achosion, mae ‘cyfeillion’ hŷn wedi dechrau datblygu eu hadnoddau eu hunain i bersonoli dysgu ar gyfer eu partneriaid iau, er enghraifft adnoddau i herio dealltwriaeth mathemategwyr mwy abl o drigonometreg. O ganlyniad, caiff y disgyblion eu herio’n bwrpasol.

## Partneriaethau a phontio

27 Yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion cynradd ac uwchradd yn defnyddio ystod eang o bartneriaid i wella profiadau dysgu disgyblion mwy abl a thalentog. Er enghraifft, mewn llawer o ysgolion cynradd ac adrannau celfyddydau uwchradd da, mae darpariaeth allgyrsiol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yn gysylltiedig ag asiantaethau’r celfyddydau ac mae ymarferwyr yn eu helpu i wneud y gorau o’u galluoedd (Estyn, 2016a). Mae’r rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac uwchradd yn defnyddio cyfarfodydd ymgynghori â rhieni ac adroddiadau ysgrifenedig blynyddol yn briodol i rannu gwybodaeth gyda rhieni a gofalwyr am ddisgyblion mwy abl a thalentog am gyflawniadau a chynnydd eu plant.

**Meithrin disgyblion mwy abl a thalentog trwy weithio mewn partneriaeth yn effeithiol ag ysgolion clwstwr**

Yng Nghlwstwr Ysgolion A, mae disgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 2 yn cymryd rhan mewn prosiect ysgrifennu ysgolion clwstwr, gan weithio gydag awdur i wella eu medrau ysgrifennu stori a chreu cylchgrawn tymhorol. Mae'r gweithgareddau cydweithredol hyn yn cyfrannu'n gryf at wella deilliannau ar gyfer bechgyn mwy abl mewn llythrennedd.

Mae ysgolion cynradd yng Nghwlstwr Ysgolion B yn cydgyfrannu arbenigedd eu staff fel bod disgyblion ar draws y clwstwr yn elwa ar addysgu arbenigol. Er enghraifft, mae cynorthwyydd addysgu sy'n gyn-gymnastwr Prydeinig yn arwain gweithdai addysg gorfforol ar gyfer disgyblion talentog ym Mlynyddoedd 3 a 4, sy'n dod at ei gilydd yn yr ysgol letyol ar gyfer y sesiynau hyn. Cyn ac ar ôl pob sesiwn, mae disgyblion yn llenwi 'ffurflen effaith', lle maent yn myfyrio ar lefelau eu medrau, eu mwynhad a'u cymhelliant yn y sesiwn a'r modd y mae'r gweithgareddau y buont yn cymryd rhan ynddynt wedi gwella'u galluoedd. Caiff deilliannau'r sesiynau hyn eu hadolygu'n ddiweddarach gan arweinwyr yn eu cyfarfodydd 'grŵp clwstwr disgyblion mwy abl a thalentog'.

**Trefniadau pontio cynradd-uwchradd effeithiol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog**

Yng Nghlwstwr Ysgolion A, mae athrawon cynradd ac uwchradd yn dechrau trafod disgyblion ym Mlwyddyn 4 gan ddefnyddio meini prawf cytûn i nodi eu bod yn fwy abl a/neu dalentog, gan ddeall y bydd disgyblion yn datblygu a 'ffynnu' ar adegau gwahanol. Mae'r trafodaethau cynnar hyn yn helpu'r ysgolion hyn i gynllunio'n strategol ar gyfer gwaith pontio, gan eu bod yn ystyried y mathau o weithgareddau a dulliau pontio y gallai'r carfanau hyn o ddisgyblion elwa arnynt yn y dyfodol.

Yng Nghlwstwr Ysgolion B, mae disgyblion mwy abl o Flwyddyn 7 yn cynorthwyo'r disgyblion Blwyddyn 6 â her sy'n seiliedig ar lythrennedd, lle mae disgyblion yn defnyddio'u medrau darllen a meddwl i ddatrys cliwiau cryptig a datblygu eu medrau ysgrifennu trwy ysgrifennu stori gyflawn mewn dim mwy na 50 gair. Mae disgyblion yn mwynhau her y diwrnodau hyn, yn ogystal â chyfarfod disgyblion o ysgolion eraill sy'n fwy abl a thalentog, a gweithio gyda nhw. Mae'r gweithgareddau cydweithredol hyn yn eu cynorthwyo i ddatblygu cyfeillgarwch cyn dechrau yn eu hysgol newydd ac yn helpu i leddfu pryderon am y cyfnod pontio y gallent eu profi fel arall. Mae dewis nifer fach iawn o ddisgyblion o bob ysgol ar gyfer yr ymweliadau hyn yn golygu eu bod yn tueddu i ganolbwyntio'n fwy ar y disgyblion 'mwyaf abl' (h.y. y disgyblion hynny sydd â gallu academaidd eithriadol o dda).

Yng Nghlwstwr Ysgolion C, mae'r ysgol uwchradd yn rhyddhau ei staff i weithio ochr yn ochr ag athrawon a disgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 dros gyfnod hwy. Er enghraifft, mae'r adran fathemateg yn gweithio gyda'u harweinydd pontio i ddarparu adnoddau a chefnogi strategaethau addysgu ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yng nghyfnod allweddol 2. Mae hyn wedi datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau athrawon cynradd wrth gyflwyno agweddau ar gwricwlwm mathemateg cyfnod allweddol 3. O ganlyniad, mae'r ysgolion wedi datblygu dulliau addysgu mwy cyson mewn mathemateg rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

28 Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd lle bernir bod arweinyddiaeth yn rhagorol, mae arweinwyr yn gweithredu'n bwrpasol i sicrhau bod yr ysgol yn bodloni anghenion pob un o'i disgyblion, gan gynnwys y rheiny sy'n fwy abl a thalentog. Maent yn sicrhau bod pob un o'r staff a'r rhieni'n deall y polisi ar gyfer nodi disgyblion mwy abl a thalentog a'r profiadau dysgu y bydd yr ysgol yn eu darparu.

**Nodweddion cyffredin arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol o ran gwella safonau a darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog:**

- Mae arweinwyr yn ei gwneud yn glir pwy sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am oruchwylio gweithredu polisi ac arfer ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog
- Mae arweinwyr yn sicrhau bod prosesau cynllunio strategol yn rhoi sylw digon da i gynorthwyo staff i fodloni anghenion disgyblion mwy abl a thalentog
- Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r staff a'r rhieni yn deall y polisi ar gyfer nodi disgyblion mwy abl a thalentog a'r profiadau dysgu y bydd yr ysgol yn eu darparu
- Mae arweinwyr a staff yn adolygu eu polisïau a'u harferion i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion disgyblion mwy abl a thalentog, er enghraifft fel rhan o roi ystyriaeth ehangach i werthoedd a nodau eu hysgol yng nghyd-destun diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru
- Maent yn darparu rhesymeg glir ar gyfer yr addysgu a'r profiadau dysgu y maent yn eu cyflwyno, ac ar gyfer y gofal, y cymorth a'r arweiniad y maent yn eu darparu ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog
- Maent wedi datblygu dulliau hynod lwyddiannus ar gyfer yr ysgol gyfan lle ceir ffocws parhaus ar gyflawni safonau uwchlaw disgwyliadau trwy addysgu o ansawdd cyson uchel a phrofiadau dysgu cyfoethog
- Defnyddiant ymchwil yn effeithiol i lywio eu strategaethau
- Mae arweinwyr a staff yn monitro ac arfarnu pa mor dda y mae eu darpariaeth yn bodloni anghenion disgyblion mwy abl a thalentog yn drylwyr
- Mae ysgolion yn defnyddio cyllid grant, fel y grant datblygu disgyblion, yn hynod effeithiol i herio a chynorthwyo disgyblion cymwys sy'n fwy abl a thalentog
- Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r staff yn cymryd rhan yn effeithiol mewn profiadau dysgu proffesiynol i'w cynorthwyo i wella eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth o'r ffordd orau i herio a meithrin disgyblion mwy abl a thalentog

## Cymorth a her i ysgolion

29 Pan fyddant yn fwyaf effeithiol, mae consortia rhanbarthol yn cefnogi cydweithio rhwng ysgolion yn dda ac yn datblygu partneriaethau ehangach i wella'r profiadau dysgu ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog, er enghraifft trwy weithio gyda sefydliadau addysg uwch.

**Codi dyheadau ar gyfer disgyblion uwchradd mwy abl a thalentog sydd dan anfantais**

Trwy gydweithio â Campws Cyntaf a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, trefnodd Consortiwm Canolbarth y De gyfres o brofiadau preswyl ar gyfer 100 o ddisgyblion mwy abl a thalentog Blwyddyn 10 o gefndiroedd difreintiedig o wyth ysgol uwchradd ledled y rhanbarth yng Nghampws y Brifysgol yng Nghyncoed.

Bu disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod o brofiadau sy'n adlewyrchu bywyd prifysgol, gan gynnwys mynychu darlithoedd mewn pynciau amrywiol fel y gyfraith a Siapanaeg, byw fel myfyriwr prifysgol gyda'u cyllideb eu hunain, a choginio iddyn nhw eu hunain.

Dywedodd pob disgybl a gymerodd ran y byddent yn fwy tebygol o fynd i brifysgol o ganlyniad i'w profiad, a dywedodd pob disgybl a fynychodd o Ysgol Gyfun Glynrhedynog mai dyna oedd eu profiad gorau ym Mlwyddyn 10.

**Prosiect ymchwil ar y cyd i lywio strategaeth ranbarthol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yn ne ddwyrain Cymru**

Comisiynwyd rhaglen ymchwil gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn 2016-2017 gan ddefnyddio cyllid a neilltuwyd gan Lywodraeth Cymru yn benodol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog, gyda ffocws penodol ar ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Canolbwyntiodd yr ymchwil a wnaed gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd, Ymchwil Arad a Phrifysgol Bryste (Davies et al, 2017) ar y meysydd canlynol:

- effaith gosod targedau ar ddyheadau dysgwyr mwy abl
- dulliau penodol o addysgu a dysgu a'u heffaith ar berfformiad pobl ifanc mwy abl o gartrefi a chymunedau difreintiedig
- ffactorau a dylanwadau allanol allweddol sy'n effeithio fwyaf ar berfformiad pobl ifanc mwy abl o gartrefi a chymunedau difreintiedig
- pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i wneud y gorau o gyfleoedd ar gyfer pobl ifanc fwy abl o gartrefi a chymunedau difreintiedig
- anghenion penodol pobl ifanc fwy abl o gartrefi a chymunedau difreintiedig o ran cymorth a lles a pha mor dda y caiff y rhain eu bodloni mewn ysgolion

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn defnyddio deg argymhelliad yr adroddiad terfynol i ddatblygu a bwrw ymlaen â'i strategaeth ranbarthol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog, er enghraifft i gynorthwyo ysgolion i fodloni anghenion disgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

## Cwestiynau ar gyfer darparwyr

**Ysgolion:**

- Beth yw eich strategaeth i wella deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog, gan gynnwys y rheiny sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod gwersi'n darparu digon o her i fodloni anghenion disgyblion mwy abl a thalentog?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod disgyblion talentog yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu medrau chwaraeon, creadigol, technolegol, arwain ac entrepreneuraidd, a bod staff yn monitro eu cyflawniadau a'u cynnydd?
- Beth yw eich trefniadau ar gyfer darparu cymorth i helpu meithrin a bodloni anghenion dysgu disgyblion mwy abl a thalentog, yn enwedig y rheiny o gefndiroedd difreintiedig?
- Pa mor dda ydych chi'n ymgysylltu â rhieni disgyblion mwy abl a thalentog fel partneriaid yn addysg eu plant?
- Beth yw eich trefniadau i ddarparu cymorth a her effeithiol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog mewn cyfnodau pontio?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod cynllunio strategol a hunanarfarnu yn canolbwyntio ar ddeilliannau a darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog?

**Awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol**

- Pa gyfleoedd dysgu proffesiynol ydych chi'n eu darparu ar gyfer athrawon a staff cymorth i fodloni anghenion disgyblion mwy abl a thalentog, a hwyluso rhannu arfer effeithiol?
- Sut ydych chi'n cynorthwyo ysgolion i arfarnu eu darpariaeth a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog, yn enwedig y rheiny o gefndiroedd difreintiedig?
- Sut ydych chi'n cefnogi cyfle gwell i ddisgyblion mwy abl a thalentog gael profiadau dysgu priodol ar draws rhanbarthau?

# 1 Safonau

30 Ym mhob cyfnod allweddol, mae gan ddisgyblion mwy abl a thalentog agwedd gadarnhaol iawn tuag at eu dysgu. Pan gânt eu cymell, maent yn canolbwyntio'n dda, yn dangos gwydnwch ac yn dyfalbarhau yn eu dysgu. Mae disgyblion yn mwynhau archwilio gwybodaeth a chysyniadau'n fanwl ac ymgymryd â themâu a thestunau heriol. Pan fydd safon deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yn uchel iawn, mae disgyblion yn amgyffred syniadau haniaethol yn gyflym ac yn meistroli medrau ar lefel sydd gryn dipyn o flaen eu cyfoedion. Mae'r disgyblion hyn yn trosglwyddo medrau a gwybodaeth yn hynod effeithiol o fewn pynciau, ac ar eu traws.

31 Bron ym mhob ysgol lle mae disgyblion mwy abl a thalentog yn cyflawni'n dda, mae disgyblion yn cyfarwyddo eu dysgu eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn gwneud dewisiadau tra ystyriol ac annibynnol ynglŷn â sut a beth maent yn ei ddysgu. Maent yn arfarnu eu cynnydd eu hunain a chynnydd disgyblion eraill yn drylwyr, ac yn gosod eu targedau eu hunain ar gyfer gwella. Maent yn gwybod beth i'w wneud i wella'u gwaith ac yn datblygu synnwyr brwd o gyfrifoldeb ar gyfer datblygu eu dysgu eu hunain.

32 Pan fydd y ddarpariaeth yn fwyaf effeithiol, yn aml, mae gan ddisgyblion mwy abl a thalentog fedrau meddwl beirniadol a medrau datrys problemau tra datblygedig. Maent yn cymhwyso'r rhain yn hyderus mewn cyd-destunau cyfarwydd ac i sefyllfaoedd newydd. Maent yn rhannu eu syniadau'n glir gan ddefnyddio terminoleg fanwl gywir ac yn cyfiawnhau eu barn gyda dadleuon rhesymegol. Maent yn defnyddio a chymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn hynod effeithlon ac yn aml yn greadigol yn eu gwaith. Fodd bynnag, mae canfyddiadau arolygiadau'n nodi nad yw disgyblion mwy abl a thalentog yn cyflawni cystal ag y gallent mewn tua thraean o ysgolion. Nid ydynt bob amser yn datblygu medrau i'r lefel y maent yn abl i'w chyflawni, nac yn cymhwyso'r rhain ar lefel ddigon uchel. Mae disgyblion mwy abl mewn rhai ysgolion uwchradd yn unig yn datblygu eu medrau meddwl yn dda o ganlyniad i addysgu effeithiol.

### Cyfnodau allweddol 2 a 3

33 Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mewn Saesneg, Cymraeg mamiaith, mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg ail iaith, mae asesiadau athrawon o gyflawniadau disgyblion ar y lefel 5 sy'n uwch na'r disgwyl, neu'n uwch, yn dangos cynnydd o flwyddyn i flwyddyn er 2012 (Llywodraeth Cymru, 2017a). Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch wedi gwella'n gyflym hefyd. Mae dros hanner y disgyblion ym mhob maes pwnc yn cyflawni o leiaf lefel 6, a bu cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni ddwy neu dair lefel uwchlaw'r lefel 5 ddisgwyliedig. Mae'r cyrhaeddiad ar ei uchaf mewn mathemateg ar y lefelau uwch, gyda dwywaith cyfran y disgyblion yn cyflawni lefel 8 nag yn y pynciau eraill (Llywodraeth Cymru, 2017b).

34 Yng nghyfnod allweddol 2, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn mewn Saesneg, Cymraeg mamiaith a Chymraeg ail iaith ar y lefelau uwch na'r disgwyl (Llywodraeth Cymru, 2017a a 2017e). Fodd bynnag, mae cyflawniadau bechgyn a merched yn debyg mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Yng nghyfnod allweddol 3, er 2012, mae merched wedi perfformio'n well na bechgyn ar y lefelau uwch na'r disgwyl ym mhob pwnc craidd. Mewn Cymraeg a Saesneg, mae'r bwlch yn parhau i fod yn sylweddol (Llywodraeth Cymru, 2017b).

35 Nid yw disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â'u cyfoedion yn gyson yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Er 2012, mae'r bwlch wedi cynyddu ychydig ym mhob un o'r pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2, ac mae'n ehangach ar gyfer pob pwnc yng nghyfnod allweddol 3 nag yng nghyfnod allweddol 2 (Llywodraeth Cymru, 2017f a 2017g).

36 Mae'r cynnydd yn neilliannau disgyblion ar y lefelau uwch na'r disgwyl yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 dros gyfnod yn parhau i godi cwestiynau am ddibynadwyedd a dilysrwydd asesiadau athrawon, yn enwedig p'un a oes gormod o bwyslais ar asesiadau athrawon at ddibenion atebolrwydd, yn hytrach nag asesu cywir i wella dysgu. Ceir dadansoddiad ac arfarniad o ddeilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog o gyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 yn Atodiad 2.

### Cyfnod allweddol 4

37 Mae ychydig o welliant wedi bod yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r graddau uchaf dros gyfnod mewn mathemateg, ond mae wedi dirywio yn 2017 mewn Saesneg, Cymraeg a gwyddoniaeth (Llywodraeth Cymru, 2017h). Yng nghyfnod allweddol 4, bu rhywfaint o gynnydd yng nghyfran y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n cyflawni pum gradd A* i A mewn TGAU (neu gyfwerth) yn 2017 ar ôl cyfnod o ostyngiad.

38 At ei gilydd, mae cyfran uwch o ferched Blwyddyn 11 yn cyflawni pum gradd A* i A mewn TGAU (neu gyfwerth) na bechgyn. Caewyd y bwlch hwn ychydig yn 2017 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

39 Nid yw disgyblion mwy abl sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â disgyblion eraill sy'n fwy abl mewn arholiadau allanol. Mae'r bwlch mewn perfformiad yng nghanran y disgyblion sy'n ennill pum gradd A* i A wedi bod oddeutu 14% yn y tair blynedd ddiwethaf (Llywodraeth Cymru, 2017c). Mae bwlch nodedig rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a disgyblion eraill o gymharu â'r rheiny a gyflawnodd y lefelau uwch na'r disgwyl ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 o ran eu perfformiad yn arholiadau cyfnod allweddol 4. Mae Atodiad 2 yn darparu rhagor o wybodaeth am ddeilliannau disgyblion mwy abl a thalentog yng nghyfnod allweddol 4.

### Y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA)

40 Yn arolygon 2012 a 2015, roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni'r lefelau uchaf ym mhob pwnc yn is nag ydoedd yng ngwledydd eraill y DU, ac roedd islaw cyfartaledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (Jerrim a

Shure, 2016).  Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch yn is na'r disgwyl o ystyried y sgorau cymedrig ym mhob un o'r tri phwnc.  Nid yw'r disgyblion mwyaf breintiedig yng Nghymru yn cyflawni cystal â disgyblion tebyg yng ngweddill y DU.  Ychydig iawn o welliant a fu yn sgorau PISA o ran y disgyblion â'r perfformiad uchaf yng Nghymru er 2006.  Mae cyfran y disgyblion yng Nghymru sy'n disgwyl ennill gradd Baglor hefyd islaw cyfartaledd yr OECD.

# 2 Darpariaeth

## Addysgu a phrofiadau dysgu

41 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac uwchradd ddealltwriaeth briodol, ar y cyd, o'r modd y maent yn diffinio disgyblion 'mwy abl a thalentog' yn eu hysgolion unigol. Mae llawer o ysgolion yn ymwybodol o'r diffiniad yn 'Cyflawni'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion mwy Galluog a Thalentog' (Llywodraeth Cymru, 2008), ond mae ganddynt eu dehongliad eu hunain o hyn. Er enghraifft, mae llawer o ysgolion yn cyfeirio at ddisgyblion 'mwy abl' fel y rheiny y mae eu gallu academaidd yn uwch, sy'n cyflawni uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 neu 3 ac yn cyflawni gradd A* neu A mewn TGAU. Mae lleiafrif o ysgolion yn cyfeirio at gyfran fach iawn o ddisgyblion sy'n eithriadol o abl, y maent yn eu diffinio fel disgyblion sy'n gweithio o leiaf ddwy lefel uwchlaw'r disgwyliad ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Mae llawer o ysgolion yn nodi disgyblion 'talentog' fel y rheiny sydd â gallu penodol mewn chwaraeon, y celfyddydau mynegiannol neu dechnoleg. Mae ychydig iawn o ysgolion yn cynnwys medrau arwain disgyblion yn eu diffiniad o 'talentog'.

42 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cymryd camau i ddathlu llwyddiannau disgyblion y tu allan i'r ysgol, ac yn rhoi amlygrwydd i ddisgyblion sy'n sicrhau cynrychiolaeth ar lefelau rhanbarthol neu genedlaethol yn eu disgyblaeth. Mae lleiafrif o ysgolion yn chwilio am gyfleoedd i gynnwys disgyblion mewn prosiectau lle gallant ddangos ac ymestyn eu doniau, er enghraifft trwy fenter 'Shakespeare in schools', neu ddigwyddiadau arbennig fel cystadlaethau chwaraeon rhanbarthol. Yn gyffredinol, mae ysgolion cynradd ac uwchradd yn canolbwyntio eu hymdrechion ar ddarpariaeth ar gyfer disgyblion 'mwy abl' na disgyblion 'talentog'. O ganlyniad, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion 'talentog' wedi'i datblygu'n ddigonol o hyd mewn ysgolion ledled Cymru.

43 Mae mwyafrif o ysgolion wedi symud oddi wrth ddefnyddio arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru o 'oddeutu 20% o gyfanswm poblogaeth yr ysgol' fel dangosydd o gyfran y disgyblion sydd angen 'cyfleoedd cyfoethog ac estynedig ar draws y cwricwlwm' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008, tud.6). Nod yr ysgolion hyn yw creu diwylliant cynhwysol o ddyhead a chyflawniad uchel i bawb. Fodd bynnag, ni chaiff anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys y disgyblion mwy abl a thalentog, yn enwedig y rheiny o gefndiroedd difreintiedig, eu hystyried yn ofalus bob amser.

44 Nododd adroddiadau blaenorol Estyn (Estyn, 2011 a 2012) fanteision dulliau dysgu unigoledig a phersonoledig ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog, gan eu bod yn ffynnu pan roddir cyfle iddynt wneud dewisiadau am beth maent yn ei ddysgu, a sut. Mae'r ysgolion mwyaf effeithiol yn rhoi llawer o ymreolaeth i ddisgyblion mwy abl a thalentog o fewn cynllunio tymor hwy wedi'i strwythuro'n ofalus. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael cwricwlwm sy'n briodol eang a chytbwys sy'n datblygu eu gwybodaeth a'u medrau'n raddol, tra'n galluogi iddynt wneud dewisiadau a dilyn eu diddordebau eu hunain hefyd.

45 Sefydlodd lleiafrif o ysgolion ddarpariaeth benodol ar gyfer disgyblion mwy abl, yn seiliedig ar eu cyrhaeddiad blaenorol. Mae'r ysgolion mwyaf effeithiol o blith y rhain yn cynllunio gweithgareddau cyfoethogi ychwanegol er mwyn i'r disgyblion hyn ymestyn eu dysgu. Caiff y dulliau cyfoethogi hyn effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad a hunan-barch disgyblion. Fodd bynnag, mewn ysgolion llai effeithiol lle nad yw arweinwyr ac athrawon yn rheoli darpariaeth ychwanegol yn ddigon gofalus na sensitif, gall y strategaethau hyn gael effaith negyddol ar y rheiny na chânt eu cynnwys yn y gweithgareddau hyn.

46 Er 2010, mae ystod y dewisiadau a gynigir i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 wedi ei gulhau ar y cyfan. Mewn llawer o ysgolion, caiff disgyblion fwy o wersi ym mhynciau craidd Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, a llai o amser yn astudio pynciau eraill nag ar ddechrau'r cylch arolygu. Mae hyn wedi lleihau nifer y cofrestriadau mewn arholiadau ar gyfer pynciau fel ieithoedd tramor modern, hanes, cerddoriaeth a daearyddiaeth. Mae hyn yn golygu bod disgyblion mwy abl a thalentog yn cael llai o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau i lefel uchel mewn pynciau penodol neu ar draws ystod mor eang o ddisgyblaethau ag yn y gorffennol.

47 Yn yr ysgolion sydd fwyaf llwyddiannus yn herio disgyblion mwy abl a thalentog, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o bob disgybl. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio rhaglen astudio disgrifiadau lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol, y FfLlRh (Llywodraeth Cymru, 2013) a meini prawf dysgu o gynlluniau marcio i gynllunio a pharu gwaith i ddisgyblion o wahanol alluoedd yn eu dosbarthiadau. Mae'r ysgolion mwyaf effeithiol yn defnyddio canllawiau buddiol yn dda i sicrhau lefel dda o her ar gyfer disgyblion wrth gynllunio gweithgareddau.

48 Yn gynyddol, mae ysgolion yn darparu gwaith gyda gwahanol lefelau o her, ac mae disgyblion yn dewis y lefel sy'n briodol i'w hanghenion, yn eu barn nhw, yn hytrach na bod yr athro'n darparu gwaith gwahaniaethol ar gyfer disgyblion o wahanol alluoedd. Pan fydd athrawon yn meddu ar wybodaeth dda am gyflawniad blaenorol disgyblion ac yn defnyddio'r dull hwn yn fedrus, maent yn cymell disgyblion mwy abl a thalentog yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn sicrhau bod her ddigonol yn y gweithgareddau hyn i ymestyn disgyblion mwy abl. Yn ychwanegol, nid ydynt bob amser yn monitro dewisiadau disgyblion yn ddigon gofalus i sicrhau eu bod yn gweithio ar y lefel sy'n cyd-fynd â'u gallu.

49 Pan fydd diffygion mewn addysgu, mae athrawon yn darparu gweithgareddau ar gyfer disgyblion mwy abl sy'n gofyn iddynt gwblhau meintiau ychwanegol o waith tebyg, yn hytrach na gweithgareddau sy'n herio disgyblion i feddwl yn fwy manwl. Yn rhy aml, caiff disgyblion mwy abl dasg ymestyn ar ôl cwblhau'r prif weithgaredd yn gyflym ac yn hawdd. Nid yw hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio'n ddigon da trwy gydol y wers gyfan.

50 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio disgyblion mwy abl a thalentog i helpu disgyblion eraill â'u gwaith. Mae gan y strategaeth hon ddeilliannau buddiol o ran datblygu medrau cyfathrebu ac arwain disgyblion, yn ogystal ag atgyfnerthu eu dysgu eu hunain.

51 Mewn ysgolion hynod effeithiol, mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn cyfrannu'n eithriadol o dda at helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn

gwneud, beth mae angen iddynt ei wneud i wella, a sut i wneud hyn. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd o ansawdd uchel i ddisgyblion mwy abl asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn siarad am eu cryfderau a'u meysydd i'w gwella yn fanwl gywir ac yn aeddfed. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn defnyddio deilliannau asesiadau ffurfiannol yn fedrus i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn sgyrsiau dysgu rheolaidd gyda disgyblion unigol, gan brocio a herio eu dealltwriaeth trwy holi treiddgar, ac addasu eu cynllunio tymor byr i ystyried anghenion disgyblion.

52 Mae adolygiad pwysig gan Cymwysterau Cymru (Sperring et al, 2017) yn codi cwestiynau pwysig am y risgiau y mae defnydd helaeth o gofrestru cynnar a lluosog mewn TGAU yn eu hachosi i ddisgyblion. Er enghraifft, mae'n lleihau'r amser sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu, a chaiff disgyblion eu tynnu'n rhannol o wersi pwnc eraill weithiau. Mae athrawon yn rhuthro i gwmpasu'r maes llafur, neu beidio ag addysgu rhannau ohono. Mae disgyblion yn sefyll arholiadau heb ddealltwriaeth gyflawn o'r pwnc a'r gofynion arholi, ac nid ydynt yn cyrraedd eu llawn botensial. Gallai ailsefyll arholiadau wella graddau i rai disgyblion, ond nid pob disgybl.

53 Un o ganlyniadau anfwriadol mesurau perfformiad ysgol yw bod trothwy cynhwysol lefel 2 (h.y. gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg mewn TGAU) yn dylanwadu ar benderfyniadau ysgolion i gofrestru disgyblion yn gynnar ar gyfer arholiadau. Mae'r polisi presennol yn galluogi ysgolion i gyfrif y radd orau o sefyll arholiad droeon. Fodd bynnag, o haf 2019, cofrestriad cyntaf disgybl yn unig ar gyfer arholiad TGAU fydd yn cyfrif ym mesurau perfformiad ei ysgol.

54 Gall cofrestru'n gynnar ar gyfer arholiadau TGAU helpu disgyblion mwy abl sydd wedi meistroli cynnwys cwrs i gyflawni graddau uchel iawn ac wedyn mynd ymlaen i ddilyn cymwysterau ychwanegol neu astudio ymhellach ar gyfradd garlam, er enghraifft mewn mathemateg. Fodd bynnag, nid yw ysgolion bob amser yn ystyried anghenion unigol disgyblion yn ddigon gofalus, gan gynnwys y rheiny sy'n fwy abl a thalentog, wrth wneud y penderfyniadau hyn.

## Nodi, olrhain a chymorth

55 Mae gan lawer o ysgolion ddull ysgol gyfan cyson ar gyfer nodi disgyblion mwy abl a thalentog. Mae hyn yn cynnwys ystod o wybodaeth, fel:

- asesiadau athrawon
- deilliannau profion darllen a rhifedd cenedlaethol
- asesiadau sy'n profi agweddau ar allu gwybyddol disgyblion
- data sy'n dangos cynnydd disgyblion dros gyfnod o'u mannau cychwyn
- arsylwadau athrawon o ddisgyblion
- arsylwadau athrawon arbenigol o fedrau a galluoedd disgyblion mewn gweithgareddau allgyrsiol

Mae llawer o ysgolion hefyd yn gwahodd rhieni a gofalwyr i gynnig gwybodaeth am ddoniau disgyblion, er enghraifft mewn drama neu chwaraeon ar nosweithiau rhieni neu drwy holiaduron.

56 Mae lleiafrif o ysgolion yn defnyddio’r arweiniad gan NACE i’w helpu i sefydlu meini prawf ar gyfer nodi disgyblion mwy abl. Fodd bynnag, mae’r meini prawf a ddefnyddir yn amrywio o ysgol i ysgol, gan arwain at ddiffyg cysondeb ymhlith ysgolion cynradd ac uwchradd, a rhwng y gwahanol sectorau yn addysg disgyblion. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd sicrhau parhad a dilyniant ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog wrth iddynt symud trwy’r ysgol.

57 Mae gan bron bob ysgol system olrhain ysgol gyfan y maent yn ei defnyddio i gofnodi gwybodaeth asesu am ddisgyblion mwy abl a thalentog. Mae lleiafrif o ysgolion yn cofnodi’r disgyblion hyn ar gofrestr ar wahân. Dywed ychydig iawn o ysgolion fod cael cofrestr wedi cael effaith negyddol ar les disgyblion, gan ei fod yn cynyddu pwysau rhieni ar ddisgyblion unigol. Nid yw cael cofrestr ynddo’i hun yn sicrhau bod disgyblion mwy abl a thalentog yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Yn aml, mae ysgolion yn ei gweld yn ddefnyddiol o ran darparu trosolwg o ddisgyblion mwy abl a thalentog fel grŵp at ddibenion monitro mewnol. Er enghraifft, maent yn adolygu’r rhestr hon yn rheolaidd ochr yn ochr â’u gwybodaeth olrhain i weld a ydynt wedi anghofio unrhyw ddisgyblion, neu i wirio a nodwyd yn y gorffennol bod disgyblion mwy abl a thalentog yn gwneud y cynnydd angenrheidiol yn eu dysgu.

58 Mae ychydig iawn o ysgolion yn monitro cyflawniadau a chynnydd disgyblion mwy abl a thalentog sydd o gefndiroedd difreintiedig. Mae hyn yn arbennig o amlwg ar adegau pontio o gyfnod allweddol 2 i 3 ac o gyfnod allweddol 3 i 4. O ganlyniad, nid yw’r disgyblion hyn bob amser yn gwneud cynnydd digon da yn eu dysgu dros gyfnod.

59 Mae defnydd ysgolion cynradd ac uwchradd o ddata ac asesiadau i nodi, olrhain a monitro cynnydd disgyblion mwy abl wedi gwella ers adroddiadau blaenorol Estyn (Estyn, 2011 a 2012). Fodd bynnag, mewn bron i draean o ysgolion cynradd, hyd yn oed ble ceir olrhain cywir, nid yw athrawon yn defnyddio’r wybodaeth hon yn ddigon da i baru gweithgareddau dysgu â galluoedd disgyblion. Lleiafrif o ysgolion uwchradd yn unig sy’n gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth olrhain i fonitro perfformiad grwpiau o ddisgyblion ar draws pob grŵp blwyddyn.

60 Mae dulliau asesu hynod drylwyr gan ysgolion sy’n darparu her a chymorth eithriadol o dda ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog. Mae’r rhain yn cynnwys gweithdrefnau clir a systematig ar gyfer nodi cryfderau disgyblion gan ddefnyddio ystod eang o wybodaeth, gosod targedau trylwyr, a monitro ac olrhain cynnydd a chyflawniadau disgyblion yn effeithiol dros gyfnod. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd gweithdrefnau ac arferion asesu yn amrywio gormod o hyd rhwng ysgolion.

61 Mewn ysgolion nad oes ganddynt weithdrefnau digon trylwyr ar gyfer asesu cynnydd disgyblion yn gywir, ni chaiff disgyblion mwy abl eu nodi’n briodol bob amser. Hyd yn oed mewn ysgolion hynod effeithiol, ni chaiff cyflawniadau a chynnydd disgyblion y nodwyd eu bod yn ‘dalentog’ eu monitro a’u holrhain rhyw lawer mewn celf, cerddoriaeth, drama neu chwaraeon, er enghraifft.

62 Mae’r ysgolion mwyaf llwyddiannus yn datblygu diwylliant effeithiol o feithrin potensial ac uchelgais o fannau cychwyn disgyblion, er enghraifft trwy nodi’r disgyblion mwy abl hynny sy’n tangyflawni, neu y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Maent yn darparu cymorth neu ymyrraeth ychwanegol gwerthfawr ar gyfer y disgyblion hyn,

gan gydnabod bod angen iddynt fynd i'r afael â materion lles cyn anghenion dysgu. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion yn unig sy'n cefnogi lles disgyblion sy'n fwy abl a thalentog yn benodol. Mae hyn yn golygu nad yw ysgolion cynradd ac uwchradd bob amser yn ymwybodol o'r rhwystrau neu'r heriau a allai fod yn wynebu disgyblion mwy abl a thalentog, er enghraifft pwysau gan gyfoedion i beidio ag ymddangos yn 'glyfar' yn sgil ofni cael eu hynysu, neu ddiffyg hyder i siarad â phobl eraill.

63 At ei gilydd, mae systemau mentora ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog wedi'u datblygu'n well mewn ysgolion uwchradd, na mewn ysgolion cynradd. Mae rhai ysgolion uwchradd hynod effeithiol yn darparu mentora ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am weithgareddau allgyrsiol, opsiynau ar gyfer pynciau a dewisiadau gyrfa. Er enghraifft, mae Ysgol Gyfun Glynrhedynog yn cynnal cynhadledd ar draws sectorau ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog. Canolbwyntiodd y gynhadledd eleni ar godi dyheadau disgyblion trwy ganolbwyntio ar bosibiliadau gyrfa. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion, mae sicrhau bod disgyblion mwy abl a thalentog yn elwa ar arweiniad buddiol ynghylch dewisiadau opsiwn, llwybrau gyrfa a chyfleoedd addysg bellach ac addysg uwch yn faes i'w wella o hyd.

64 Ychydig iawn o ysgolion uwchradd sy'n cynorthwyo disgyblion mwy abl a thalentog yn effeithiol trwy ddefnyddio systemau cyfeillion ar draws sectorau. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion hŷn sy'n gweithredu fel cyfeillion yn gwella'u medrau cyfathrebu ac yn datblygu medrau meddwl effeithiol. Mae'r cyfeillion iau yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd effeithiol, ac yn y rhan fwyaf o achosion, y tu hwnt i'r rheiny sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran.

### Partneriaethau a phontio

65 At ei gilydd, mewn llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd, mae gweithio mewn partneriaeth yn gryfder. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion cynradd ac uwchradd yn defnyddio ystod eang o bartneriaid i wella profiadau dysgu disgyblion mwy abl a thalentog. Er enghraifft, mewn llawer o ysgolion cynradd ac adrannau celfyddydau uwchradd da, mae darpariaeth allgyrsiol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog sy'n gysylltiedig ag asiantaethau ac ymarferwyr y celfyddydau yn eu helpu i wneud y gorau o'u galluoedd (Estyn, 2016a). Yn Ysgol Gynradd Ffynnon Taf, mae disgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 2 yn cymryd rhan mewn prosiect ysgrifennu ysgolion clwstwr, gan weithio gydag awdur i wella'u medrau ysgrifennu stori a chynhyrchu cylchgrawn tymhorol. Mae'r gweithgareddau cydweithredol hyn yn cyfrannu'n gryf at wella deilliannau ar gyfer bechgyn mwy abl mewn llythrennedd.

66 Pan fydd partneriaethau effeithiol iawn, mae ysgolion cynradd mewn clwstwr yn cydgyfrannu arbenigedd eu staff fel bod disgyblion ar draws y clwstwr yn elwa ar addysgu arbenigol. Er enghraifft, yn Ysgol Gynradd Victoria (Penarth), mae cynorthwyydd addysgu sy'n gyn-gymnastwr Prydeinig yn arwain gweithdai addysg gorfforol ar gyfer disgyblion talentog ym Mlynyddoedd 3 a 4, sy'n dod at ei gilydd yn yr ysgol letyol ar gyfer y sesiynau hyn. Cyn ac ar ôl pob sesiwn, mae disgyblion yn llenwi 'ffurflen effaith', lle maent yn myfyrio ar lefelau eu medrau, eu mwynhad a'u cymhelliant yn y sesiwn a'r modd y mae'r gweithgareddau y buont yn cymryd rhan ynddynt wedi gwella'u galluoedd. Caiff deilliannau'r sesiynau hyn eu hadolygu'n

ddiweddarach gan arweinwyr yn eu cyfarfodydd 'grŵp clwstwr disgyblion mwy abl a thalentog'.

67 Mae llawer o ysgolion uwchradd yn dechrau nodi bod disgyblion yn fwy abl neu dalentog yn yr ysgolion cynradd sy'n eu bwydo. Er enghraifft, mae uwch arweinwyr dynodedig yn cymryd cyfrifoldeb am bontio rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3. Maent yn cynnal sgyrsiau pwrpasol gydag ysgolion sy'n bwydo am yr holl ddisgyblion sy'n symud i'r ysgol, ac yn trosglwyddo gwybodaeth bwysig am y disgyblion hynny y mae'r ysgol gynradd yn eu hystyried yn ddisgyblion mwy abl a thalentog i'r arweinwyr sydd â'r cyfrifoldeb hwn.

68 Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae athrawon cynradd ac uwchradd yn dechrau trafod disgyblion ym Mlwyddyn 4 gan ddefnyddio meini prawf cytûn i nodi eu bod yn fwy abl neu dalentog, gyda'r ddealltwriaeth y bydd disgyblion yn datblygu a 'ffynnu' ar adegau gwahanol. Mae'r trafodaethau cynnar hyn yn helpu'r ysgolion hyn i gynllunio'n strategol ar gyfer gwaith pontio, gan eu bod yn ystyried y mathau o weithgareddau a dulliau pontio a allai fod o fudd i'r carfanau hyn o ddisgyblion yn y dyfodol. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae uwch arweinydd o'r ysgol uwchradd yn mynychu nosweithiau rhieni Blwyddyn 6 yr ysgolion cynradd ac yn gwrando ar drafodaethau gwerthfawr rhwng athrawon a rhieni. Er nad yw'n benodol i ddisgyblion mwy abl a thalentog, mae hyn yn helpu rhoi mewnwelediad buddiol i'r ysgol uwchradd ar alluoedd ac anghenion disgyblion unigol.

69 Mae llawer o glystyrau o ysgolion yn darparu gweithgareddau pontio gwerth chweil ar gyfer disgyblion mwy abl Blwyddyn 6 lle mae arweinwyr pwnc uwchradd, er enghraifft, mewn mathemateg, gwyddoniaeth Cymraeg a Saesneg, yn cyflwyno sesiynau i ddisgyblion mwy abl fel rhan o 'brosiect pontio' yn nhymor y gwanwyn neu'r haf. Mae gweithgareddau gwerth chweil eraill yn cynnwys trefnu cyfres o ddiwrnodau cyfoethogi neu brosiectau tymor byr lle mae pob ysgol gynradd sy'n bwydo'r ysgol uwchradd yn nodi dau neu dri disgybl o Flwyddyn 6 i ymweld â'r ysgol uwchradd. Mae hyn yn helpu'r ysgol uwchradd i nodi disgyblion mwy abl a thalentog o'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo yn fwy cywir a dod i adnabod y disgyblion hyn.

70 Mewn un clwstwr o ysgolion, er enghraifft, mae disgyblion mwy abl o Flwyddyn 7 yn cynorthwyo'r disgyblion Blwyddyn 6 â her sy'n seiliedig ar lythrennedd, lle mae disgyblion yn defnyddio'u medrau darllen a meddwl i ddatrys cliwiau cryptig a datblygu eu medrau ysgrifennu trwy ysgrifennu stori gyflawn mewn dim mwy na 50 gair. Mae disgyblion yn mwynhau her y diwrnodau hyn, yn ogystal â chyfarfod â disgyblion o ysgolion eraill sy'n fwy abl a thalentog, a gweithio gyda nhw. Mae'r gweithgareddau cydweithredol hyn yn eu cynorthwyo i ddatblygu cyfeillgarwch cyn dechrau yn eu hysgol newydd ac yn helpu i leddfu pryderon am y cyfnod pontio y gallent eu profi fel arall. Mae dewis nifer fach iawn o ddisgyblion o bob ysgol ar gyfer yr ymweliadau hyn yn golygu eu bod yn tueddu i ganolbwyntio'n fwy ar y disgyblion 'mwyaf abl' (h.y. y disgyblion hynny sydd â gallu academaidd eithriadol o dda).

71 Mae lleiafrif o ysgolion uwchradd yn rhyddhau eu staff i weithio ochr yn ochr ag athrawon a disgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 dros gyfnod hwy. Er enghraifft, mewn un ysgol uwchradd, mae'r adran fathemateg wedi gweithio gyda'u harweinydd pontio i ddarparu adnoddau a chefnogi strategaethau addysgu ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yng nghyfnod allweddol 2. Mae hyn wedi datblygu gwybodaeth,

dealltwriaeth a medrau athrawon cynradd wrth gyflwyno agweddau ar gwricwlwm mathemateg cyfnod allweddol 3. O ganlyniad, mae'r ysgolion wedi datblygu dulliau addysgu mwy cyson mewn mathemateg rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3.

72 Mae lleiafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd yn cynllunio gweithgareddau i gynorthwyo dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn ystod cyfnod pontio yn dda, er enghraifft darparu cymorth bugeiliol ychwanegol a rhaglen o ymweliadau â'r ysgol uwchradd ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed mewn grŵp bach iawn. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw ysgolion cynradd ac uwchradd yn cynllunio a chyflwyno gweithgareddau pontio i fodloni anghenion disgyblion mwy abl o gefndiroedd difreintiedig yn benodol.

73 Yn eu cynlluniau pontio, mae bron pob clwstwr ysgolion yn rhoi pwyslais priodol ar hyrwyddo parhad addysg rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3. Er enghraifft, mae bron pob ysgol yn defnyddio cymedroli asesiadau athrawon fel cyfle i athrawon cynradd ac uwchradd drafod cyrhaeddiad disgyblion ar draws yr ystod gallu. Fodd bynnag, ceir amrywiad eang ar draws clystyrau o ysgolion mewn rhanbarthau a ledled Cymru o ran pa mor dda y mae ysgolion yn cynllunio ar gyfer dilyniant gwybodaeth a medrau disgyblion mwy abl a thalentog o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3. Ni chaiff hyn ei helpu gan yr amrywiad rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd yn y ffordd y maent yn diffinio disgyblion mwy abl a thalentog a'r meini prawf y maent yn eu defnyddio i'w nodi. Ychydig iawn o ysgolion yn unig sydd wedi ystyried datblygu dull cyson o addysgu a dysgu yn benodol i gefnogi cynnydd disgyblion mwy abl a thalentog fel grŵp o gyfnod allweddol 2 i 3.

74 Mae llawer o ysgolion yn olrhain cynnydd disgyblion ar bob lefel asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 3, gan gynnwys disgyblion sy'n cyflawni lefel 7 neu'n uwch. Fodd bynnag, dim ond mewn ychydig iawn o ysgolion uwchradd y mae arweinwyr wedi ystyried darpariaeth i gynorthwyo disgyblion mwy abl a thalentog yn eu cyfnod pontio o gyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 4. Er enghraifft, mae gan un ysgol uwchradd grŵp uwch arweinyddiaeth sydd â chyfrifoldeb am fentora disgyblion mwy abl mewn cyfnodau pontio. Maent yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth bugeiliol effeithiol ar gyfer disgyblion, a chyfeiriad clir ar gyfer llwybrau dysgwyr i astudio academaidd pellach a llwybrau galwedigaethol wrth i ddisgyblion ddechrau ym Mlwyddyn 10.

75 Pan fydd systemau pontio'n wael, disgyblion mwy abl sy'n tueddu i ddioddef fwyaf. Mae hyn oherwydd bod y gwaith yn aml yn rhy hawdd iddynt ac nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel. O ganlyniad, aiff disgyblion mwy abl yn fwy rhwystredig a digymell ac nid ydynt yn gwneud cynnydd yng nghyfnod allweddol 3.

76 Yn ei adroddiadau blaenorol, nododd Estyn argymhelliad i ysgolion gefnogi dealltwriaeth rhieni o sut gallant gefnogi addysg eu plentyn yn well. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac uwchradd yn defnyddio cyfarfodydd ymgynghori â rhieni ac adroddiadau ysgrifenedig blynyddol yn briodol i rannu gwybodaeth gyda rhieni a gofalwyr disgyblion mwy abl a thalentog am gyflawniadau a chynnydd eu plant. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion sy'n ddigon rhagweithiol o ran rhannu gwybodaeth am ddull yr ysgol o herio a meithrin ei disgyblion mwy abl a thalentog, er enghraifft trwy ei phrosbectws ysgol neu'i gwefan. Mae ychydig iawn o ysgolion wedi sefydlu strategaethau ar gyfer gwella dealltwriaeth rhieni o sut gallant gefnogi dysgu eu

plentyn.  Yn gyffredinol, mae cyfathrebu â rhieni i gynorthwyo disgyblion mwy abl a thalentog o gefndiroedd difreintiedig yn wan.

77 At ei gilydd, ar draws ysgolion, mae darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yn amrywio’n eang.  Ers cyhoeddi adroddiadau cynradd ac uwchradd blaenorol Estyn ar ddisgyblion mwy abl a thalentog (Estyn, 2011 a 2012), mae arolygwyr wedi parhau i nodi diffygion yn y ddarpariaeth mewn lleiafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd.  Yn gyffredinol, ni roddwyd blaenoriaeth ddigon uchel i wella darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru.

# 3 Arweinyddiaeth a rheolaeth

## Arweinyddiaeth, hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant

78 Mae ansawdd darpariaeth ysgolion ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yn dibynnu ar ansawdd yr arweinyddiaeth a'r pwysigrwydd y mae uwch arweinwyr yn ei roi i wella safonau a darpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn. Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd lle bernir bod arweinyddiaeth yn rhagorol, mae arweinwyr yn gweithredu'n bwrpasol i sicrhau bod yr ysgol yn bodloni anghenion pob un o'i disgyblion, gan gynnwys y rheiny sy'n fwy abl a thalentog. Maent yn sicrhau bod pob un o'r staff a'r rhieni'n deall y polisi ar gyfer nodi disgyblion mwy abl a thalentog a'r profiadau dysgu y bydd yr ysgol yn eu darparu.

79 Mewn rhai ysgolion, mae arweinwyr a staff wedi adolygu eu polisïau a'u harferion i fodloni anghenion disgyblion mwy abl a thalentog, er enghraifft fel rhan o ystyriaeth ehangach i werthoedd eu hysgol a nodau yng nghyd-destun diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru.

80 Mae rhai ysgolion hynod effeithiol yn darparu rhesymeg glir ar gyfer yr addysgu a'r profiadau dysgu y maent yn eu cyflwyno, a'r gofal, cymorth ac arweiniad y maent yn eu darparu ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog. Mae arweinwyr yn esbonio'n fanwl gywir sut maent yn darparu ar gyfer anghenion y disgyblion hyn yn unol â gweledigaeth a nodau eu hysgol. Mae ychydig iawn o ysgolion yn defnyddio ymchwil yn effeithiol i lywio eu strategaethau. Mae'r ysgolion hyn wedi datblygu dulliau ysgol gyfan hynod lwyddiannus lle mae ffocws parhaus ar gyflawni safonau uwchlaw disgwyliadau trwy addysgu o ansawdd cyson uchel a phrofiadau dysgu cyfoethog. O ganlyniad, mae'r ysgolion hyn yn herio a meithrin disgyblion mwy abl a thalentog yn effeithiol iawn.

81 Yn rhy aml, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod prosesau cynllunio strategol yn rhoi sylw digon da i gynorthwyo staff i fodloni anghenion disgyblion mwy abl a thalentog. Er enghraifft, yn aml, nid yw dogfennau ysgolion, fel polisïau addysgu a dysgu, yn cynnwys arweiniad digon clir na manwl ar gyfer staff ar strategaethau effeithiol i gynllunio ac addysgu'r cwricwlwm i fodloni anghenion disgyblion sydd â galluoedd a medrau mwy datblygedig. O ganlyniad, mae arferion ar gyfer herio a meithrin eu cynnydd yn amrywio gormod rhwng dosbarthiadau mewn ysgolion cynradd ac yn ôl dosbarth ac adran mewn ysgolion uwchradd.

82 Mae mwyafrif o ysgolion yng Nghymru yn ystyried anghenion disgyblion mwy abl a thalentog fel rhan o'u darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol. Mae ysgolion eraill yn ystyried eu hanghenion ar wahân ac mae ganddynt gydlynydd penodol neu dîm o staff sydd â chyfrifoldeb am ddisgyblion sydd â medrau a galluoedd mwy datblygedig. Mewn rhai achosion, nid yw'n glir pwy sydd â'r cyfrifoldeb. Yn gyffredinol, nid yw rôl y cydlynydd ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog mor amlwg ag ydoedd adeg adroddiadau blaenorol Estyn, ac mae'n llai clir pwy sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am oruchwylio gweithredu polisi ac arfer ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion.

83 Mewn tua thraean o ysgolion cynradd ac mewn mwyafrif o ysgolion uwchradd, mae prosesau ar gyfer gwella ansawdd yn wan. Nid oes digon o ysgolion yn monitro ac arfarnu pa mor dda y mae eu darpariaeth yn bodloni anghenion disgyblion mwy abl a thalentog yn ddigon trylwyr.

84 Mae lleiafrif o arweinwyr ysgol yn gwneud defnydd helaeth o ddeunyddiau a ddarperir gan NACE i'w helpu i arfarnu eu darpariaeth yn rheolaidd a nodi meysydd y gallant wella ynddynt. Ar gyfer ysgolion sydd wedi ymgymryd â 'Gwobr Her NACE', mae llawer ohonynt yn ystyried y bu'r broses yn bwysicach na'r wobr ei hun, gan fod y Safonau Ansawdd wedi eu helpu i ddatblygu strategaeth ysgol gyfan lwyddiannus a chynllun gweithredu ar gyfer gwella. Mae ychydig iawn o ysgolion yn nodi bod 'Cwricwlwm i bob dysgwr' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010) yn ddogfen arweiniad bwysig ar gyfer cefnogi eu cynllunio a'u harfarniad o'u darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog.

## Defnyddio adnoddau

85 Mae defnydd ysgolion o gyllid grant, fel y grant datblygu disgyblion, i gefnogi gwelliannau mewn deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yn hynod amrywiol. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae arweinwyr yn targedu cyllid yn effeithiol i herio disgyblion cymwys sy'n fwy abl. Mae rhai ysgolion cynradd ac uwchradd yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn dda i ddarparu cludiant a goruchwyliaeth er mwyn i ddisgyblion mwy abl a thalentog cymwys allu manteisio ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithdai, gweithgareddau a digwyddiadau drama, celf, cerddoriaeth neu chwaraeon na fyddent yn cael profiad ohonynt fel arall. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid oes digon o ffocws mewn ysgolion ar helpu disgyblion mwy abl a thalentog o gefndiroedd difreintiedig i oresgyn rhwystrau rhag dysgu.

86 Mae ychydig iawn o ysgolion yn defnyddio'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol i dargedu datblygu gwybodaeth a medrau disgyblion mwy abl a thalentog yn benodol. O bryd i'w gilydd, mae cyfranogiad ysgolion yn y cynllun yn helpu staff i nodi disgyblion sy'n meddu ar allu creadigol cryf iawn mewn cerddoriaeth, celf a drama, a'r rheiny sydd â medrau arwain neu entrepreneuraidd uwch. Pan fydd disgyblion mwy abl a thalentog yn cyflawni deilliannau eithriadol o dda, mae hyn yn aml yn ganlyniad annisgwyl gwaith prosiect gydag ymarferwyr arbenigol, yn hytrach na ffocws cynlluniedig o'r cychwyn.

## Dysgu proffesiynol

87 Mae'r graddau y mae staff yn cymryd rhan yn effeithiol mewn profiadau dysgu proffesiynol i'w cynorthwyo i wella'u gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth o sut orau i herio a meithrin disgyblion mwy abl a thalentog yn amrywio'n sylweddol ar draws ysgolion. Mae lleiafrif o ysgolion yn gweithio'n fuddiol gyda sefydliadau allanol, fel NACE, i ddatblygu'r agwedd hon ar eu harfer. Er enghraifft, mae athrawon yn Ysgol Gynradd Victoria ym Mhenarth yn gweithredu dull cyson o nodi disgyblion sy'n fwy abl a thalentog. O ganlyniad, mae athrawon yn fwy hyderus ynglŷn â'r broses hon. Mae deunyddiau hyfforddi NACE wedi helpu staff i ganolbwyntio ar holi fel strategaeth allweddol ar gyfer ymestyn dysgu disgyblion unigol mewn gwersi. Mae'r ffocws hwn wedi gwella cysondeb yr addysgu ar draws yr ysgol ar gyfer disgyblion mwy abl.

88 Pan nodir bod gwella deilliannau a darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yn flaenoriaeth yng nghynllun datblygu'r ysgol, mae hyn yn tueddu i fod yn gysylltiedig ag anelu at ennill Gwobr Her NACE. Yn yr achosion hyn, mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd hyfforddi addas ar gyfer staff. Yn gyffredinol, ers adroddiadau thematig blaenorol Estyn, ni chafwyd llawer o gyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel i wella arfer ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yn eu hystafelloedd dosbarth a'u hysgolion. Mae hyn yn dechrau gwella wrth i gonsortia mewn rhai ardaloedd yng Nghymru ddechrau rhoi mwy o bwyslais ar gefnogi a herio ysgolion i fodloni anghenion disgyblion mwy abl a thalentog yn fwy effeithiol.

89 Mae arolwg thematig Estyn o gymorth a chydweithio o ysgol i ysgol (Estyn, 2017) yn nodi bod ysgolion â pherfformiad uchel bob amser yn gweithio'n agos gyda rhwydweithiau, clystyrau a grwpiau teuluol o ysgolion eraill. Mae hyn yn helpu staff i ddeall y ffactorau sy'n cyfrannu at arfer effeithiol, myfyrio ar eu harfer eu hunain a magu hyder. Mae Consortiwm Canolbarth y De wedi dechrau rhaglen newydd o weithio rhwng ysgolion i wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog a chynyddu cyfran y disgyblion sy'n cyflawni gradd A* i A mewn TGAU. Fodd bynnag, ledled Cymru, megis dechrau datblygu y mae cydweithio rhwng ysgolion sy'n canolbwyntio ar sut orau i fodloni anghenion disgyblion mwy abl a thalentog.

# 4 Cymorth a her i ysgolion

## Awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol

90 Yn 2016, arolygodd Estyn y pedwar consortiwm rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar ran y 22 awdurdod lleol (Estyn 2016b, 2016c, 2016d, 2016e). Barnwyd bod dau o'r consortia rhanbarthol yn darparu cymorth da ar gyfer gwella ysgolion a bod y ddau arall yn darparu cymorth digonol.

91 Yn dilyn ymweliadau yn hydref 2017 i fonitro cynnydd y consortia o ran mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn eu harolygiadau, mae Estyn wedi gweld cynnydd cadarn mewn defnydd o ddata, gosod targedau, gweithdrefnau olrhain a dadansoddi perfformiad gwahanol grwpiau o ddisgyblion i arfarnu tueddiadau dros gyfnod, gan gynnwys y disgyblion mwy abl.

92 Mae pob consortiwm yn darparu hyfforddiant a chymorth addas ar gyfer eu hymgynghorwyr i'w helpu i fonitro ac olrhain cynnydd disgyblion ar lefel ranbarthol, awdurdod lleol unigol, lefel ysgol ac ar gyfer grwpiau o ddisgyblion. Yn ychwanegol, mae Consortiwm Canolbarth y De yn darparu pecyn 'dysgwyr sy'n agored i niwed' i bob ysgol, sy'n cynnwys data am berfformiad eu disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ar y deilliant neu'r lefel uwch na'r disgwyl. Mae hyn yn darparu ffocws gwerthfawr ar gyfer trafod rhwng arweinwyr ysgol a'u hymgynghorwyr her yn ystod ymweliadau, ac o ganlyniad, yn ddiweddar, mae cyfran gynyddol o ysgolion yn nodi y dylid canolbwyntio ar roi blaenoriaeth i nodi disgyblion mwy abl a thalentog yn eu cynlluniau gwella ysgol. Er y bu gwelliant yn y modd y mae ymgynghorwyr her yn cefnogi a herio ysgolion i fonitro ac olrhain effaith rhaglenni cymorth neu ymyrraeth ychwanegol ar ddisgyblion, anaml y mae hyn yn digwydd ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog.

93 Erbyn hyn, mae pob consortiwm rhanbarthol yn nodi gwella deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl yn eu cynlluniau 2017-2018. Ar hyn o bryd, nid ydynt yn canolbwyntio ar yr agwedd dalentog. Mae tri o'r pedwar consortiwm wedi nodi swyddogion arweiniol perthnasol sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig am gymorth ysgol a her ar gyfer disgyblion mwy abl. Mae eu ffocws yn cynnwys datblygu strategaethau rhanbarthol, gan gynnwys diffiniad cytûn o'r term 'mwy abl a thalentog', a chydlynu gweithio rhwng ysgolion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y strategaethau hyn.

94 Mae tri o'r pedwar consortiwm yn darparu cymorth priodol ar gyfer ysgolion i wella deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl fel rhan o'u cynnig dysgu proffesiynol ac yn cefnogi cydweithio rhwng ysgolion. Er enghraifft, mae consortiwm GwE yn darparu cyfres o weithdai cydweithredol i gynorthwyo athrawon i weithio gyda'u cyfoedion i ddefnyddio'r rhaglenni astudio i gynllunio her ar gyfer disgyblion mwy abl, darparu adborth priodol ar gyfer disgyblion mwy abl, targedu eu camau nesaf mewn dysgu a chefnogi cywirdeb mewn asesiadau athrawon. Bu GwE yn cymharu'r deilliannau ar gyfer ysgolion a fynychodd y gweithdai â'r rheiny na wnaethant eu mynychu. Ym mhob pwnc, roedd canlyniadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn uwch ar gyfer yr ysgolion a gafodd y cymorth.

95 Ceir rhai enghreifftiau o gonsortia yn dechrau gweithio gyda sefydliadau addysg uwch, er enghraifft trwy fabwysiadu dull wedi'i lywio gan ymchwil o wella deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl o gefndiroedd difreintiedig ac o ran cefnogi ysgolion i godi dyheadau ar gyfer eu disgyblion.

### Llywodraeth Cymru

96 Yn 2015, sefydlodd Llywodraeth Cymru Rwydwaith Seren ledled Cymru. Nod y rhwydwaith hwn o ganolfannau rhanbarthol yw cynorthwyo myfyrwyr mwyaf abl Cymru ym Mlwyddyn 12 i gyflawni eu potensial academaidd a chael mynediad i brifysgolion blaenllaw. Nododd adolygiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2018) fod Rhwydwaith Seren wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at godi dyheadau'r myfyrwyr mwy abl a thalentog sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen. Er enghraifft, mae wedi helpu iddynt wneud dewisiadau gwybodus am eu hopsiynau astudio pellach ac mae'n cynorthwyo myfyrwyr yn fuddiol i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen i wneud ceisiadau cystadleuol i sefydliadau addysg uwch blaenllaw.

97 Mae'r adolygiad annibynnol (Llywodraeth Cymru, 2018) yn argymell y dylid hyrwyddo Rhwydwaith Seren yn ehangach mewn ysgolion uwchradd, i godi dyheadau disgyblion, ac yn benodol, y rheiny sy'n fwy abl a thalentog yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau gwerth chweil i ystyried sut gall grwpiau ehangach o ddisgyblion elwa ar yr adnoddau, y wybodaeth a'r cyngor a dargedir trwy Rwydwaith Seren.

98 Ym mis Medi 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl 2017-21' (Llywodraeth Cymru, 2017d). Mae'r cynllun hwn yn adeiladu ar gynllun 'Cymwys am Oes' 2014 (Llywodraeth Cymru, 2014), yr adolygiad o'r cwricwlwm yn 2015 (Donaldson, 2015) ac mae'n amlinellu'r modd y bydd y system ysgolion yn symud ymlaen dros y cyfnod 2017-2021. Mae'n canolbwyntio ar godi safonau ar gyfer pob disgybl, ac mae'n nodi pedwar 'amcan galluogi' i fodloni ei nod i sicrhau bod yr holl bobl ifanc yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i gyrraedd y safonau uchaf.

99 Mae'r cynllun yn rhoi pwyslais gwerthfawr ar yr angen i wella ansawdd yr addysgu trwy ddysgu proffesiynol 'i ymestyn ein dysgwyr mwyaf abl ym mhob lleoliad/ysgol'. Mae hefyd yn amlygu'r angen i wella pontio i bob disgybl 'ar bob adeg allweddol' (Llywodraeth Cymru, 2017d, tud.26) ac 'ymateb i'r heriau unigryw sy'n wynebu unigolion neu grwpiau o ddysgwyr', fel cynorthwyo disgyblion i oresgyn eu rhwystrau dysgu (Llywodraeth Cymru, 2017d, tud.31). Mae'r cynllun yn nodi 'ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a lles' fel un o'i amcanion galluogi allweddol (Llywodraeth Cymru, 2017d, tud.31). Fodd bynnag, nid yw ysgolion bob amser yn glir ynglŷn â sut gallant fod 'yn gynhwysol' ac 'yn deg' i'r holl ddisgyblion, tra'u bod, ar yr un pryd, yn bodloni anghenion eu disgyblion mwy abl a thalentog y gallai fod angen cyfleoedd ychwanegol arnynt.

100 Nid yw'r diffiniad o'r term, 'mwy abl a thalentog' wedi cael ei adolygu yng Nghymru er 2003 (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC), 2003). Ar hyn o bryd, mae llawer mwy o ddehongliadau o'r term ar draws ysgolion ac ardaloedd yng Nghymru i ddisgrifio disgyblion â medrau, galluoedd neu ddoniau

datblygedig.  Mae’r diffyg cysondeb hwn wrth ddefnyddio’r term yn ei gwneud yn anodd i ysgolion a chonsortia rhanbarthol wybod ‘pa’ ddisgyblion i’w nodi yn eu gwaith.

## Astudiaethau achos arfer effeithiol

**Mae Ysgol Gynradd Evenlode yn gwella medrau llythrennedd disgyblion mwy abl trwy weithio mewn partneriaeth ac addysgu arbenigol**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Ysgol gymunedol ym maestref orllewinol Penarth ym Mro Morgannwg yw Ysgol Gynradd Evenlode. Mae ganddi ryw 450 o ddisgyblion rhwng pedair ac un ar ddeg oed. Ychydig iawn o ddisgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Saesneg yw prif iaith y disgyblion.

**Cyd-destun a chefndir yr arfer effeithiol**

Mae’r ysgol yn darparu ar gyfer llawer o ddisgyblion abl ar draws pob grŵp blwyddyn. Dros y blynyddoedd diwethaf, rhoddwyd blaenoriaeth i wella ysgrifennu disgyblion mwy abl ar draws yr ysgol. Mae gweithio mewn partneriaeth ag un o gyn-rieni’r ysgol, sydd â phrofiad fel athro iaith arbenigol, wedi galluogi llawer o ddisgyblion hŷn i lwyddo i ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig.

**Disgrifiad o’r gweithgarwch/strategaeth**

Rhoddodd yr ysgol strategaeth ar waith i ymestyn medrau ysgrifennu disgyblion mwy abl ym Mlwyddyn 6. Mynnodd y strategaeth hon fod disgyblion yn mynychu sesiwn hanner diwrnod wythnosol gyda chyn-riant, sy’n athro iaith arbenigol. Trwy weithio gyda disgyblion Blwyddyn 8 yr ysgol gyfun leol, roedd yn ofynnol i ddisgyblion mwy abl Blwyddyn 6 yr ysgol ddarllen nofel benodol a defnyddio’i strwythur fel fframwaith naratif i’w helpu i ysgrifennu eu stori estynedig eu hunain dros flwyddyn. Roedd y broses yn cynnwys gwaith cartref arloesol, strategaethau addysgu ystafell ddosbarth hynod effeithiol ac unigryw a chymorth i rieni trwy gyswllt wythnosol a chyfarfodydd tymhorol.

Bu’r arbenigwr yn gweithio’n llwyddiannus gyda disgyblion ar amrywiaeth eang o strategaethau a thechnegau effeithiol i wella eu hysgrifennu creadigol. Seiliodd ei raglen ysgrifennu creadigol a llythrennedd ar gaffael geirfa a thechnegau ysgrifennu syml a ddefnyddir gan awduron proffesiynol.

Fe wnaeth cyswllt ag adran Saesneg yr ysgol gyfun leol alluogi disgyblion Blwyddyn 6 a Blwyddyn 8 i gymryd rhan mewn mentora a golygu gwaith cyfoedion, ac o ganlyniad, bu’r disgyblion Blwyddyn 6 yn gweithredu fel mentoriaid cyfoedion i ddisgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 4 yn eu tro. Cynyddodd hyn eu hyder a gwella’u lles.

Mae gan y disgyblion sy’n cymryd rhan yn y rhaglen hyder a dawn o ran ysgrifennu creadigol a ffeithiol sy’n heintus, a llwyddodd pob un o’r disgyblion i greu eu nofelau eu hunain, a oedd rhwng 12 ac 16 mil o eiriau. Mae gan lawer o’r disgyblion hynny oedran darllen rhwng 13 ac 14 oed.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Llwyddodd llawer o ddisgyblion a fu'n cymryd rhan yn y rhaglen i gynhyrchu gwaith mewn llafaredd, ysgrifennu a darllen ar lefel 6 mewn Saesneg. O ganlyniad i lwyddiant y fenter, mae ail garfan o ddisgyblion wrthi'n gweithio ar y rhaglen ar hyn o bryd.

Roedd y disgyblion Blwyddyn 5 a gafodd eu mentora yn ystod cyfnod cyntaf y rhaglen yn awyddus iawn i gymryd rhan, gan ddangos brwdfrydedd i ysgrifennu.

**Mae Ysgol Gynradd Langstone wedi adolygu ei dull o fodloni anghenion disgyblion mwy abl a thalentog i ymateb i ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru, ond wedi cadw'r hyn sy'n gweithio'n dda**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Gynradd Langstone ym mhentref Langstone i'r dwyrain o Gasnewydd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r ardal leol a'r ardal gyfagos. Mae tua 300 o ddisgyblion amser llawn ar y gofrestr, rhwng pedair ac un ar ddeg oed.

Mae ychydig dros 2% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae hyn gryn dipyn islaw'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 11% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

**Cyd-destun a chefndir yr arfer effeithiol**

Mae gan yr ysgol hanes cryf iawn o berfformiad uchel ymhlith disgyblion mwy abl. Mae Ysgol Langstone yn ysgol sy'n arloesi mewn dysgu proffesiynol.

Wrth ymateb i ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru, mae'r ysgol wedi adolygu ei dull o ran y modd y mae'n bodloni anghenion disgyblion mwy abl a thalentog. Yn hytrach na siarad am 'sut i addysgu disgyblion mwy abl', mae staff wedi canolbwyntio ar ddatblygu addysgeg sy'n gweithio i bob un o'r plant, sy'n cael ei gyrru gan y pedwar 'diben craidd'. Am y rheswm hwn, mae'r ysgol wedi symud oddi wrth nodi disgyblion mwy abl a thalentog fel grŵp ar wahân a chadw cofrestr ffurfiol. Erbyn hyn, mae'r ysgol yn ystyried bod ei darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog yn rhan o'i hathroniaeth gynhwysol i gael disgwyliadau uchel o bob disgybl, a darparu'r cymorth a'r her briodol i fodloni anghenion pob disgybl.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth**

Mae'r ysgol yn defnyddio cyfuniad o destunau dosbarth a dull prosiect ysgol gyfan i gyflwyno'i chwricwlwm. Mae'n rhoi cydbwysedd gofalus i ddisgyblion o gyfleoedd eang ac amser i astudio testunau'n fanwl i ddatblygu, atgyfnerthu ac ymgorffori eu gwybodaeth a'u medrau'n

gynyddol ar draws yr ysgol.  Er enghraifft, mae'r prosiect 'Pages through the ages' yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai mwy abl a thalentog, yn cael llawer o gyfleoedd ysgogol i gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus mewn ystod eang o gyd-destunau a datblygu eu gwybodaeth a'u medrau sy'n benodol i bwnc yn effeithiol ar draws meysydd dysgu a phrofiad, wedi'u hategu gan y pedwar diben craidd.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais sylweddol ar ddatblygu medrau disgyblion ar gyfer dysgu.  Mae'n ymgorffori strategaethau sydd â hanes o fod yn fwy effeithiol dros gyfnod.  Er enghraifft, o'r dosbarth derbyn i Flwyddyn 6, mae disgyblion yn defnyddio set gyffredin o 'offer' i'w helpu i gynllunio eu syniadau a chynnal eu dysgu yn annibynnol.  Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn gwneud dewisiadau ynglŷn â sut i gyflwyno'u gwaith o oedran ifanc iawn.  Ymgorfforwyd y dull hwn dros sawl blwyddyn, ac mae hyn wedi cael effaith gref a chynaledig ar ddatblygu medrau disgyblion mwy abl wrth iddynt gynllunio, cofnodi a gwneud penderfyniadau.

Mae'r ysgol yn defnyddio ffilm trwy gydol y flwyddyn, fel y cyd-destun ar gyfer ei ffocws ysgol gyfan ar ddatblygu medrau dysgu gydol oes disgyblion.  Roedd arweinwyr wedi nodi nad oes gan ddisgyblion bob amser y gwydnwch i ymdopi pan fyddant yn gweld rhywbeth yn anodd neu'n cael rhywbeth yn anghywir yn eu gwaith.  Dewison nhw'r ffilm 'Eddie the Eagle' fel y cyfrwng ar gyfer cynllunio gwaith cwricwlwm i gyflwyno disgyblion mwy abl a thalentog i'r cysyniad o rym meddylfryd 'hyd yma'.  Trefnon nhw i Eddie 'the Eagle' Edwards ymweld â'r ysgol i siarad â disgyblion am ei heriau wrth gyrraedd a chymryd rhan yn y gemau Olympaidd, a phwysigrwydd hunan-gred.  Mae'r profiad bywyd go iawn ysbrydoledig hwn wedi cael effaith bwerus ar helpu disgyblion mwy abl a'r rheiny â doniau ym myd chwaraeon neu ddoniau creadigol i ddatblygu gwydnwch gwell, a dyfalbarhau â'u dysgu.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Yn arolygiad diwethaf yr ysgol yn 2014, nododd Estyn:

- fod cofnod cyson dros gyfnod o berfformiad uchel gan ddisgyblion mwy abl
- bod addysgu o ansawdd da iawn yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn cael lefel uchel o her yn eu gwaith
- bod athrawon yn datblygu medrau disgyblion ar gyfer dysgu yn eithriadol o dda

Mae disgyblion mwy abl a thalentog yn siarad yn hyderus am y ffaith fod yna rwystr wrth fynd i'r afael â chysyniadau neu fedrau mwy heriol, neu gymhwyso eu gwybodaeth a'u medrau mewn sefyllfa newydd.  Maent yn esbonio'n hyderus y strategaethau y maent yn eu defnyddio i oresgyn hyn i ymdrechu tuag at gyflawni eu nodau dysgu.  Maent yn dangos gwydnwch a llawer o annibyniaeth fel dysgwyr.

**Mae Ysgol Gyfun Treorci yn darparu rhaglen Gymraeg arloesol i herio'i disgyblion mwy abl ac yn defnyddio fforwm llais y disgybl i ymgynghori â'i disgyblion mwy abl a thalentog yn rheolaidd**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Ysgol gymysg, gymunedol 11 i 18 oed yn Rhondda Cynon Taf yw Ysgol Gyfun Treorci. Mae'n ysgol cyfrwng Saesneg sydd â chryn dipyn o ddarpariaeth Gymraeg. Mae'r ysgol yn galluogi disgyblion o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i barhau i astudio tua hanner eu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3. Mae tua 1,680 o ddisgyblion ar y gofrestr.

Mae tua 21% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, ac mae gan ryw 20% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae naw deg chwech y cant o ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig. Mae tua 10% o ddisgyblion yn rhugl yn y Gymraeg, a gall ryw 40% ohonynt siarad Cymraeg, ond ddim yn rhugl. Mae saith y cant o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

**Cyd-destun a chefndir yr arfer effeithiol**

Yn 2007, Ysgol Gyfun Treorci oedd yr ysgol gyntaf yng Nghymru i ennill gwobr her y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Abl mewn Addysg (NACE). Ers ei phenodi yn 2011, mae'r pennaeth wedi canolbwyntio gwaith yr ysgol ar gydnabod pob disgybl fel unigolyn ac ar sicrhau bod safonau uchel wrth wraidd athroniaeth yr ysgol. Mae pob un o'r arweinwyr yn cynnal ffocws cadarn ar sicrhau eu bod yn cynorthwyo a herio'r disgyblion hynny sy'n fwy abl a thalentog trwy ystod o strategaethau a darpariaeth effeithiol.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth**

Mae arweinwyr wedi datblygu darpariaeth hynod greadigol i sicrhau bod disgyblion mwy abl yn datblygu medrau Cymraeg helaeth. Mae hyn yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, a chymuned yr ysgol. Er enghraifft, mae dadansoddiad arweinwyr yn dangos bod o leiaf 80% o ddisgyblion sy'n mynychu prifysgol yn aros yng Nghymru, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn parhau i weithio a byw yng Nghymru. O ganlyniad, mae'r ysgol yn targedu datblygiad medrau Cymraeg ar gyfer disgyblion mwy abl yn fuddiol.

Mae staff o'r ysgol uwchradd yn addysgu Cymraeg yn yr ysgolion cynradd sy'n ei bwydo bob wythnos, gan ddechrau gyda disgyblion ym Mlwyddyn 5. Ar ôl dwy flynedd o weithio gyda'r disgyblion hyn, gallant nodi'r rheiny sy'n fwy abl yn effeithiol. Trwy gysylltu ag arweinwyr cynradd a rhieni, mae'r ysgol yn rhoi'r disgyblion hyn ar raglen Gymraeg garlam, sef Cwrs Carlam. Mae'r un athrawon yn gweithio gyda'r disgyblion mwy abl hyn trwy eu blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol uwchradd ac mae disgyblion yn symud yn gyflym trwy'r cwricwlwm Cymraeg. I gefnogi'r gwaith hwn, mae athrawon

mewn pynciau sylfaen eraill yn defnyddio mwy o Gymraeg fel iaith y cyfarwyddyd mewn gwersi, ac maent yn disgwyl i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau Cymraeg wrth ysgrifennu.  O ganlyniad, mae'r disgyblion mwy abl hyn yn datblygu eu medrau Cymraeg yn dda iawn ac yn sefyll eu harholiadau TGAU ar ddiwedd Blwyddyn 9.  Mae canlyniadau'n dangos bod bron pob un o'r disgyblion yn cyflawni gradd uchel yn gyson.

Fel rhan o ymdrech yr ysgol i wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl, mae arweinwyr yn gwrando ar safbwyntiau'r disgyblion hyn yn gydwybodol, ac yn gweithredu yn unol â nhw.  Mae gan yr ysgol fforwm cryf llais y disgybl o'r enw'r cyngor ysgol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog.  Mae'r cyngor hwn o ddau ddisgybl o bob grŵp blwyddyn yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn rhoi safbwynt buddiol i arweinwyr ar ddarpariaeth yr ysgol o safbwynt myfyriwr.  Gall disgyblion dynnu sylw arweinwyr yr ysgol at faterion y maent yn eu hystyried yn arwyddocaol, ac mae'r ysgol yn gofyn am eu barn ar faterion pwysig a allai effeithio ar ddisgyblion mwy abl a thalentog.  Er enghraifft, mae arweinwyr yn gofyn i ddisgyblion am adborth ar lefel yr her a gânt mewn gwahanol wersi a sut gallai'r ysgol wella, yn eu barn nhw.  O ganlyniad, mae arweinwyr wedi gwneud newidiadau mewn dosbarthiadau ac wedi cyfoethogi darpariaeth yn unol â syniadau'r grŵp, pan fo'n briodol.  Er enghraifft, erbyn hyn, gall disgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau manylach y tu allan i'r ysgol, fel ymweld â phrifysgol lle mae disgyblion mwy abl yn dysgu am athroniaeth a diwrnod iaith ar gyfer disgyblion mwy abl mewn ysgol uwchradd arall.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Mae deilliannau mewn Cymraeg ar gyfer disgyblion mwy abl sy'n dilyn rhaglen y Cwrs Carlam yn gyson uchel.  Yn 2016, cyflawnodd bron i ddau o bob tri o'r disgyblion hyn radd A* neu A, tra sicrhaodd 95% raddau A* i B.  Yn 2017, cyflawnodd 85% o ddisgyblion raddau A* neu A, a chyflawnodd 100% o ddisgyblion raddau A* i B (Llywodraeth Cymru, 2017c).

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni pum gradd A*-A mewn TGAU (neu gyfwerth) yn gyson uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2017c).

Barnodd Estyn fod yr ysgol yn darparu profiadau dysgu rhagorol sy'n bodloni anghenion yr holl ddisgyblion.  Mae darpariaeth Cwrs Carlam yr ysgol yn galluogi disgyblion mwy abl a thalentog i wneud cynnydd cyflym o ran datblygu eu medrau Cymraeg.

Mae gan ddisgyblion mwy abl a thalentog agweddau cadarnhaol iawn at addysgu, ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain, gan nodi prifysgolion mawreddog yr hoffent eu mynychu, a gyrfaoedd heriol y maent yn anelu atynt.

**Mae Ysgol y Preseli yn defnyddio hunanarfarnu yn llwyddiannus i ddatblygu dull heriol a phersonoledig o herio a meithrin ei disgyblion mwy abl a thalentog**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Ysgol gyfun gymunedol ddwyieithog ddynodedig ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 18 oed yn awdurdod lleol Penfro yw Ysgol y Preseli. Mae tua 900 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae tua 5% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, ac mae gan ryw 20% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Daw pedwar deg un y cant o ddisgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl.

**Cyd-destun a chefndir yr arfer effeithiol**

Yn 2013, nododd arweinwyr, er bod gan yr ysgol ddiffiniad clir o ddisgyblion mwy abl a thalentog, fod arferion ar gyfer herio a meithrin eu cynnydd yn amrywio gormod yn ôl adran, ac nid oeddent yn gyson.

Ail-ganolbwyntiodd yr ysgol ei dehongliad o ddisgyblion mwy abl, a diweddarodd ei harferion i sicrhau ei bod yn ystyried anghenion unigol disgyblion. Nododd fod angen iddi wella cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 7 neu'n uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 a'r gyfran sy'n cyflawni 5 gradd A* i A mewn TGAU.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth**

Er 2013, mae arweinwyr wedi sicrhau ffocws cyson ar ddisgyblion mwy abl mewn cynlluniau gwella. I ddechrau, sefydlodd yr ysgol rôl arwain benodol a nododd arweinydd fyddai â chyfrifoldeb am ddisgyblion mwy abl a thalentog.

Dechreuodd arweinydd yr ysgol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog weithio gyda phob un o'r staff gan ddefnyddio arweiniad gan NACE i archwilio ac arfarnu darpariaeth ac arferion yr ysgol. Cydnabu arweinwyr, er y gallai'r gwaith hwn arwain at ennill gwobr NACE, mai cryfder gwirioneddol y broses hon oedd helpu i nodi meysydd i'w gwella a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a deilliannau disgyblion.

Yn dilyn hyn, arweiniodd yr arweinydd ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog sesiynau hyfforddi staff i helpu athrawon i ystyried a datblygu dealltwriaeth glir, ar y cyd, o'r hyn y mae mwy abl a thalentog yn ei olygu yn eu hysgol. O ganlyniad, mae staff yn fwy hyderus yn eu gallu i nodi'r disgyblion hyn a'u rhoi ar gofrestr yr ysgol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog. Mae hyn yn cynorthwyo athrawon eraill i herio'r disgyblion hyn yn effeithiol mewn gwersi.

Gan ddefnyddio fframwaith NACE, archwiliodd arweinwyr y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog ar draws yr holl adrannau, a nododd gamau gwella, er enghraifft mentora disgyblion unigol a gwella'r cyfnod pontio o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3, i sicrhau bod athrawon yn adeiladu'n raddol ar fedrau a gwybodaeth flaenorol disgyblion. Mae'r ysgol

yn parhau i ddefnyddio offeryn archwilio NACE i arfarnu ei harferion a'i chynllun ar gyfer gwella. Roedd y camau dilynol a gymerwyd yn cynnwys datblygu cynlluniau gwaith gyda chynnwys mwy heriol a thasgau cyfoethogi ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog.

Fel rhan o ethos yr ysgol i gynorthwyo a galluogi pob un o'r disgyblion i gyflawni eu potensial, mae arweinwyr a staff yn gweithio'n ddiwyd i alluogi disgyblion mwy abl i ddilyn cyrsiau TGAU ychwanegol pan fyddant yn dymuno. Mae hyn yn golygu cefnogi dysgu'r disgyblion hyn y tu allan i'r amserlen ysgol arferol. Er enghraifft, pan fydd disgybl yn gofyn am gael astudio un cwrs TGAU arall na'r hyn y mae'r amserlen yn ei ganiatáu, mae athrawon yn gweithio gyda disgyblion mwy abl i sicrhau bod hyn yn gallu digwydd. Mae athrawon yn darparu gwaith cwrs a llyfrau astudio perthnasol ar gyfer disgyblion, ac maent yn aml yn gweithio gyda disgyblion amser cinio neu ar ôl yr ysgol. Mae disgyblion yn gweithio'n gydwybodol i gwblhau gwaith cwrs yn eu hamser eu hunain, ac mae athrawon yn darparu cymorth unigol pan fydd angen. Mae gwaith yr ysgol yn y maes hwn yn galluogi disgyblion mwy abl i astudio ystod ehangach o bynciau na'r hyn sy'n arferol, a bron ym mhob achos, mae disgyblion sy'n cwblhau'r cyrsiau TGAU ychwanegol hyn yn cyflawni graddau uchel.

Yn ogystal â darparu her drylwyr yn yr ystafell ddosbarth, mae arweinwyr wedi datblygu strategaeth fentora ar gyfer disgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 3. Maent yn cydnabod, er bod y disgyblion hyn yn fwy abl yn academaidd, efallai bod angen cymorth arnynt i ymgynefino â'r ysgol uwchradd neu â materion lles. Er enghraifft, mae arweinwyr yn nodi'r disgyblion hynny sy'n teimlo'u bod dan bwysau i berfformio'n gyson ar lefel uwchlaw eu cyfoedion neu y mae eu cynnydd yn arafu. Mae athrawon hefyd yn nodi'r disgyblion mwy abl hynny y gallai fod angen cymorth mentora arnynt, yn eu barn nhw. Mae'r athrawes arweiniol yn cyfarfod â'r rheiny sy'n cael eu nodi'n rheolaidd. Mae hyn yn galluogi iddi drafod eu hanghenion unigol a nodi sut gall yr ysgol eu cynorthwyo neu ddarparu ar eu cyfer. Wedyn, gall gyfathrebu ag athrawon eraill i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion disgyblion. Er enghraifft, roedd disgybl y nodwyd ei fod yn fwy abl yn perfformio'n arbennig o dda ar draws y cwricwlwm ond yn achosi pryder mewn un maes pwnc penodol. Nododd athrawon hyn yn gyflym a darparu mentora. O ganlyniad, gwelwyd gwelliant yn ymgysylltiad y disgybl mewn gwersi a chynnydd mewn dysgu yn y pwnc hwn.

Yn sgil y system fentora, nododd arweinwyr fod llawer o ddisgyblion mwy abl ym Mlwyddyn 7 eisiau her ychwanegol, yn y dosbarth a'r tu allan. I hwyluso hyn, datblygwyd llyfryn her. Fe wnaeth penaethiaid adrannau gwahanol feysydd pwnc helpu i ddatblygu tasgau i'w cynnwys ynddo. Mae disgyblion yn cwblhau'r heriau hyn os oes ganddynt amser yn ystod y diwrnod ysgol neu'n gweithio trwyddynt gartref. Mae'r llyfryn yn cynnwys offeryn hunanasesu sy'n gysylltiedig â lles disgyblion sy'n galluogi'r disgyblion hyn i nodi a rhannu eu teimladau. O ganlyniad, mae'r llyfrynnau'n darparu her academaidd tra'n ffurfio'r sylfaen ar gyfer nodi materion sy'n gysylltiedig â lles disgyblion, sy'n cael eu trafod yn ystod sesiynau mentora unigol.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

O ganlyniad i hunanarfarnu effeithiol, mae gwaith yr ysgol ar wella darpariaeth ac arferion i gynorthwyo disgyblion mwy abl a thalentog wedi cael effaith gref ar ddeilliannau dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni pum gradd A*-A mewn TGAU neu gyfwerth wedi gwella'n gyson yn ystod y cyfnod hwn, gan godi o 23% yn 2015 i 31% yn 2017 (Llywodraeth Cymru, 2017c).

Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n cael eu mentora yn ymateb yn gadarnhaol i'r cymorth ac maent yn gwerthfawrogi cael unigolyn y gallant drafod unrhyw bryderon ag ef/â hi.

**Defnyddiodd Ysgol Gynradd Llandrillo-yn-Rhos y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol i ymestyn medrau mathemategol a chreadigol ei disgyblion mwy abl a thalentog**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol Gynradd Llandrillo-yn-Rhos ar gyrion Bae Colwyn. Ar hyn o bryd, mae tua 440 o ddisgyblion amser llawn a 30 o ddisgyblion rhan-amser rhwng tair ac un ar ddeg oed ar y gofrestr. Mae tua 15% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, ac mae gan yr un gyfran anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ysgol yn ysgol arloesi ar hyn o bryd, ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau yn gysylltiedig â dysgu proffesiynol.

**Cyd-destun a chefndir yr arfer effeithiol**

Rhoddwyd blaenoriaeth yng nghynllun gwella'r ysgol i wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog am y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae gan yr ysgol athro celf arbenigol a hyfforddwyd yn y sector uwchradd, sy'n arwain cyfranogiad yr ysgol yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Yn 2016-2017, defnyddiodd yr ysgol gyllid o'r cynllun i wella medrau disgyblion mewn mathemateg weithdrefnol, gyda ffocws penodol ar herio disgyblion mwy abl a thalentog mewn cyd-destun dysgu creadigol.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth**

Dros gyfnod o wyth wythnos, bu 60 o ddisgyblion Blwyddyn 5 yn cymryd rhan mewn prosiect creadigol am bum awr yr wythnos, dan arweiniad pedwar Ymarferwr Creadigol, athro celf yr ysgol ac athrawon dosbarth Blwyddyn 5. Dyma oedd nodau'r prosiect:

- datblygu medrau creadigol disgyblion trwy ddarparu cyfleoedd iddynt archwilio pum arfer greadigol y meddwl yn annibynnol, sef: dychymyg, chwilfrydedd, dyfalbarhad, cydweithrediad a disgyblaeth

- datblygu medrau rhif, mesur a data disgyblion
- cynorthwyo staff nad ydynt yn arbenigwyr i wella'u dealltwriaeth o addysgeg effeithiol mewn pynciau creadigol

Roedd arweinwyr hefyd yn awyddus i sicrhau bod y prosiect yn rhoi cyfle i ddisgyblion weithio'n annibynnol, hunangyfarwyddo'u dysgu a herio'r disgyblion mwy abl a thalentog hynny â medrau artistig a mathemategol mwy datblygedig.

Ar ddechrau'r prosiect, bu grŵp o ddisgyblion mwy abl a thalentog yn ysgrifennu cwestiynau ac yn cyfweld â dau arlunydd gweledol a dau gerddor i sicrhau y byddent yn eu helpu i gyflawni nodau'r prosiect. Gyda'i gilydd, bu'r Ymarferwyr Creadigol a'r athrawon yn cynllunio pedwar gweithdy rhagflas yn seiliedig ar arbenigedd yr ymarferwyr mewn celf a cherddoriaeth o amgylch thema 'ditectifs patrwm'. Yn y sesiynau, datblygodd disgyblion eu gwybodaeth am radiws, diamedr a chylchedd wrth iddynt ymchwilio i batrymau yn y byd naturiol, er enghraifft trwy ddŵr a sain. Gwnaethant eu darluniau arsylwadol eu hunain o drawstoriad o fresychen, gan ddefnyddio siarcol a phastelau olew i archwilio llinell, patrwm a gwead. Defnyddiodd yr Ymarferwyr Creadigol ddarluniau anatomegol Leonardo da Vinci o'r 'Dyn Fitrwfaidd' (1490) i gyflwyno disgyblion i'r cysyniad mathemategol o gymhareb a chyfran, y gwnaethant ymchwilio iddynt gan ddefnyddio eu cyrff i greu darluniau ar raddfa fawr. Roedd hyn yn llwyddiannus iawn o ran ennyn diddordeb a herio disgyblion mwy abl, a aeth yn eu blaenau i archwilio cred da Vinci mai cydweddiadau ar gyfer gweithiau'r bydysawd yw cyfrannau'r corff dynol. Fe wnaeth hyn sbarduno'u meddwl yn effeithiol iawn, gan eu hannog i ofyn cwestiynau lefel uchel a gwneud gwaith ymchwil annibynnol gartref.

Yn dilyn adolygiad o'r sesiynau rhagflas, cytunodd yr Ymarferwyr Creadigol a'r staff y dylid rhoi cyfle i ddisgyblion ddilyn eu diddordebau creadigol unigol a chael dewis rhydd ynglŷn â'r pwnc, y technegau a'r offer y byddent yn eu harchwilio o fewn y thema 'ditectifs patrwm' ar gyfer gweddill y prosiect. Gyda'i gilydd, fe wnaethant gynllunio cydbwysedd gofalus o archwilio creadigol a datblygu medrau rhifedd, sydd wedi'u hanelu ar lefel briodol i fodloni anghenion disgyblion unigol, gan gynnwys y disgyblion mwy abl a thalentog. Bu'r arbenigwyr yn gweithio'n llwyddiannus gyda disgyblion yn unigol ac mewn grwpiau bach i ddatblygu eu medrau, er enghraifft gan ddefnyddio cymwysiadau cyfrifiadur llechen i greu cyfansoddiadau cerddorol a deunyddiau diwydiannol fel pibau metel i greu cafn marmor yn dilyn eu hymchwiliadau o 'lif'.

Bob wythnos, bu athrawon a'r Ymarferwyr Creadigol yn myfyrio ar y prosiect gyda'i gilydd, yn rhoi adborth i'w gilydd ac yn adolygu cynnydd. Dros yr wyth wythnos, sylwodd staff ar welliannau sylweddol yng ngallu disgyblion i weithio mewn timau amrywiol, trafod rolau a gwneud penderfyniadau fel sut i drefnu pob sesiwn, a gyda phwy i weithio. Sylwodd athrawon fod disgyblion mwy abl a thalentog yn aml yn dewis gweithio gyda disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan eu bod yn cydnabod bod ganddynt rinweddau, fel gwydnwch a dyfalbarhad, a oedd o fudd mawr wrth fentro a datrys problemau. Yn yr un modd, roedd disgyblion llai abl yn croesawu'r cymorth

gan eu cyfoedion, er enghraifft i ganfod yr onglau sydd eu hangen i greu cafn marmor effeithiol dros bellter hir ar y maes chwarae.

Ar ddiwedd y prosiect, cynhaliodd yr ysgol ddigwyddiad rhannu ar gyfer yr holl ddosbarthiadau, rhieni a llywodraethwyr. Dewisodd y disgyblion arddangos eu dysgu trwy stondin farchnad carwsél, lle roeddent yn rhannu eu gwaith ac yn darparu gweithgareddau creadigol byr ar gyfer pob grŵp o westeion.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Gofynnodd athrawon i bob disgybl gwblhau olwyn ‘arferion creadigol y meddwl’ ar ddechrau a diwedd y prosiect. Gyda’i gilydd, roedd staff a disgyblion yn defnyddio’r graff pry cop i siarad am gynnydd disgyblion o ran datblygu dychymyg, dyfalbarhad, cydweithrediad, disgyblaeth a chwilfrydedd yn ystod y prosiect. Er enghraifft, bu bechgyn mwy abl yn siarad yn fywiog am y modd y gwnaethant ymchwilio i’r berthynas rhwng cymarebau yn y corff dynol a’r rheiny yn y bydysawd, a oedd o ddiddordeb mawr iddynt, o ganlyniad i’r sesiwn ar gymhareb a chyfran. Fe wnaeth disgyblion mwy abl a thalentog elwa’n fawr ar gymryd rhan mewn sgyrsiau dysgu gydag arbenigwyr a oedd yn herio’u meddwl creadigol a mathemategol.

Yn sgil y cyfle i gyflwyno ac esbonio eu gwaith i ddisgyblion eraill, er enghraifft yn y dosbarth meithrin, ac i rieni, datblygwyd gallu’r disgyblion Blwyddyn 5 i addasu’r ffordd y maent yn siarad ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd yn eithriadol o dda. Er enghraifft, buon nhw’n gweithio gyda’i gilydd yn llwyddiannus i ddewis gwahanol enghreifftiau i ddangos eu hesboniadau a’u disgrifiadau o’u gwaith creadigol, yn dibynnu ar oedran y gwrandäwr.

Asesodd athrawon ddealltwriaeth disgyblion o gysyniadau mathemategol, y canolbwyntiwyd arnynt yn y prosiect, fel rhan o drefn arferol yr ysgol o gynnal asesiadau bob hanner tymor, cyn dechrau’r prosiect, ac ar ddiwedd yr wyth wythnos. Nododd athrawon fod gwelliant cryf yng nghyrhaeddiad y rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 5 mewn datrys problemau, mesur, cyfrifo arwynebedd a pherimedr, onglau a dehongli siartiau a graffiau bar. Datblygodd disgyblion mwy abl eu dealltwriaeth o gymhareb a chyfran i lefel uchel. At ei gilydd, cafodd y prosiect effaith gadarnhaol ar wella ymgysylltiad disgyblion mewn gwersi mathemateg, oherwydd gallent weld cysylltiad uniongyrchol â’u gwaith prosiect creadigol a pherthnasedd eu medrau rhifedd mewn cyd-destun ymarferol.

Roedd disgyblion mwy abl yn gwerthfawrogi’r ymreolaeth, y cyfle i fentro’n greadigol ac ehangder y profiadau ysgogol a ddarparwyd gan y prosiect. Roedd staff nad oeddent yn arbenigwyr yn eu maes yn elwa ar weithio ochr yn ochr â’r Ymarferwyr Creadigol ac athro celf yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi mabwysiadu dulliau mwy creadigol yn eu haddysgu ac yn teimlo’n fwy hyderus yn caniatáu i ddisgyblion arwain eu dysgu eu hunain ar draws y cwricwlwm.

## Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae’r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn defnyddio:

- ystod o dystiolaeth arolygu ysgolion cynradd ac uwchradd
- cyfweliadau dros y ffôn i ystod o ysgolion cynradd ac uwchradd
- ymweliadau ag ystod o ysgolion cynradd ac uwchradd
- ymweliadau â’r pedwar consortiwm rhanbarthol
- data o asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol 2 a 3 a deilliannau arholiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4
- canlyniadau PISA yn ôl pynciau a grwpiau (gan gynnwys cyfrannau sy’n cyflawni ar y lefelau uwch, sef 5 a 6)
- adolygiad helaeth o lenyddiaeth

Dewiswyd ysgolion ar ôl dadansoddi data, ystyried canfyddiadau arolygiadau, ac adborth gan AEM. Mae bron pob un o’r ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi derbyn barnau ‘Rhagorol’ mewn Dangosyddion Ansawdd perthnasol mewn arolygiad Estyn yn y tair blynedd ddiwethaf. Mae’r sampl hefyd yn cynnwys nifer fach o ysgolion sy’n arloesi yn y cwricwlwm ac mewn dysgu proffesiynol.

Wrth ymweld ag ysgolion, bu arolygwyr:

- yn cyfweld ag uwch arweinwyr, y rheiny sydd â chyfrifoldebau cydlynydd a disgyblion
- yn cynnal teithiau dysgu i arfarnu safonau ac ansawdd yr addysgu
- yn cyfweld â disgyblion i gasglu eu safbwyntiau ar y ddarpariaeth sydd ar gael yn yr ysgol
- yn craffu ar ddogfennau’r ysgol yn ystod yr ymweliad, gan gynnwys cynlluniau gwella’r ysgol, arfarniadau o brosiectau ac adroddiadau hunanarfarnu, cynlluniau dysgu proffesiynol, cynllunio athrawon a chynlluniau gwaith, ac asesiadau disgyblion ac olrhain.

**Rhestr o ysgolion a gafodd eu cyfweld, neu yr ymwelwyd â nhw:**

Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa, Merthyr Tudful
Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd
Ysgol Gynradd Langstone, Casnewydd
Ysgol Gynradd Llandrillo-yn-Rhos, Conwy
Ysgol Gynradd Penllergaer, Abertawe
Ysgol Uwchradd Gatholig Rufeinig Sant Joseph, Casnewydd
Ysgol Gyfun Treorci, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gynradd Victoria, Bro Morgannwg
Ysgol Corn Hir, Gwynedd
Ysgol Teilo Sant, Sir Gaerfyrddin
Ysgol Y Preseli, Sir Benfro

# Atodiad 2: Data perfformiad cyfnod allweddol 2 i 4

## Cyfnod allweddol 2

101 Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mewn Saesneg, Cymraeg mamiaith, mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg ail iaith, mae asesiadau athrawon o gyflawniadau disgyblion ar y lefel 5 uwch na'r disgwyl, neu'n uwch, yn dangos cynnydd o flwyddyn i flwyddyn er 2012 (Llywodraeth Cymru, 2017a a 2017e).

102 Ar y lefelau uwch na'r disgwyl, nid yw bechgyn yn perfformio cystal â merched mewn Saesneg, Cymraeg mamiaith a Chymraeg ail iaith. Fodd bynnag, mae eu cyflawniad yn debyg i gyflawniad merched mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Nid yw disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â'u cyfoedion o gryn dipyn. Dros gyfnod, mae'r bwlch wedi cynyddu ychydig ym mhob un o'r pynciau craidd[1] (Llywodraeth Cymru, 2017g).

## Cyfnod allweddol 3

103 Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch wedi gwella'n gyflym hefyd. Mae dros hanner y disgyblion ym mhob maes pwnc craidd yn cyflawni o leiaf lefel 6 a bu cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni dwy neu dair lefel uwchlaw'r lefel 5 ddisgwyliedig. Mae'r cyrhaeddiad ar ei uchaf mewn mathemateg ar y lefelau uwch, ac mae dwywaith cyfran y disgyblion yn cyflawni lefel 8 â'r gyfran yn y pynciau eraill (Llywodraeth Cymru, 2017b).

104 Er 2013, mae merched wedi perfformio'n well na bechgyn ar y lefelau uwch na'r disgwyl ym mhob un o'r pynciau craidd. Mewn Cymraeg a Saesneg, mae'r bwlch yn parhau yn sylweddol.

105 Nid yw disgyblion mwy abl sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â'u cyfoedion. Mae'r bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rheiny nad ydynt yn gymwys, yn ehangach yng nghyfnod allweddol 3 nag yng nghyfnod allweddol 2 ar gyfer pob pwnc yn 2017 (Llywodraeth Cymru, 2017f a 2017g).

## Canlyniadau arholiadau cyfnod allweddol 4

106 Mewn mathemateg, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r graddau uchaf wedi gwella er 2013, gydag ychydig o ostyngiad yn 2017. Mewn cyrsiau TGAU iaith a llenyddiaeth Saesneg, iaith a llenyddiaeth Gymraeg a gwyddoniaeth, nid yw cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r graddau uchaf wedi gwella'n gyson dros gyfnod (Llywodraeth Cymru, 2017h).

107 Yng nghyfnod allweddol 4, bu rhywfaint o gynnydd yng nghyfran y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n cyflawni pum gradd A* i A mewn TGAU neu gyfwerth yn 2017 ar ôl cyfnod o ddirywiad. Mae perfformiad yn y mesur hwn wedi cynyddu ychydig llai nag un pwynt canran er 2015 ac mae ychydig dros un pwynt canran yn is nag yn 2012

[1] Saesneg a/neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth

(Llywodraeth Cymru, 2017c). Mae hyn yn dangos bod cyfradd gwelliant disgyblion sy'n cyflawni'r graddau uchaf wedi aros yn gyson.

108 Yn 2017, arhosodd perfformiad bechgyn yn gyson, sef tua 13%, ond bu ychydig o gynnydd yng nghyfran y merched sy'n cyflawni'r pum gradd A* i A i ryw 21%. Mae disgyblion o gartrefi Tsieineaidd neu Dsieineaidd Prydeinig[2] yn perfformio'n llawer gwell na disgyblion o gefndiroedd ethnig eraill. Disgyblion y nodwyd eu bod yn gymysg o ran hil sy'n perfformio waethaf. Mae disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cyflawni'n well na disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith fod gan ysgolion cyfrwng Cymraeg lefelau is o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim (Llywodraeth Cymru, 2017c).

109 Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r graddau A* i A ar ei huchaf mewn ieithoedd tramor modern eraill[3]. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r radd uchaf wedi aros ar lefel debyg (tua 69%) am y tair blynedd ddiwethaf. Yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion mewn gwyddorau biolegol, cemeg a ffiseg, hefyd yn uwch nag ydyw mewn pynciau eraill. Yn aml, cymwysterau galwedigaethol yw'r pynciau lle mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni graddau A* i A ar ei hisaf, fel gwyddoniaeth gymhwysol ychwanegol, peirianneg gymhwysol, lletygarwch ac arlwyo. Mae cyflawniad ar y radd uchaf hefyd yn isel yn y dyniaethau, economeg y cartref, a'r dyfarniad gwyddoniaeth sengl, sef tua 8% i 13% (Llywodraeth Cymru, 2017c).

110 Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r radd uchaf mewn mathemateg wedi gostwng ychydig i ryw 17% yn 2017. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni graddau A* i A mewn Saesneg neu Gymraeg iaith wedi aros yn is nag ydyw mewn mathemateg ac ar lefel debyg am y tair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad disgyblion ychydig yn uwch mewn llenyddiaeth Saesneg nag ydyw mewn iaith (tua phum pwynt canran) ac mae'n llawer uwch mewn llenyddiaeth Gymraeg nag ydyw mewn iaith. Nid yw cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r graddau uchaf mewn gwyddoniaeth ychwanegol wedi gwella dros gyfnod, tra bod y gyfran sy'n cyflawni lefel 2 wedi gwella. Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu nad yw disgwyliadau'n ddigon uchel a bod ysgolion wedi bod yn canolbwyntio ar sicrhau bod disgyblion yn cyflawni gradd C neu'n ennill cymhwyster lefel 2 (Llywodraeth Cymru, 2017c).

111 At ei gilydd, mae cyfran uwch o ferched Blwyddyn 11 yn cyflawni pum gradd A* i A mewn TGAU (neu gyfwerth) na bechgyn. Caeodd y bwlch hwn ryw ychydig yn 2017 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn gyffredinol, mae'r bwlch ar ei fwyaf mewn Cymraeg ail iaith, celf a dylunio ac addysg grefyddol[4]. Mae cyfran y bechgyn a merched sy'n cyflawni gradd A* i A ar ei huchaf mewn ieithoedd tramor modern eraill, cemeg a'r gwyddorau biolegol, ac ar gyfer bechgyn, mae'r cyrhaeddiad uchaf mewn ffiseg hefyd (Llywodraeth Cymru, 2017c).

---

[2] Dylid ystyried y gyfran gymharol fach o ddisgyblion o gartrefi Tsieineaidd neu Dsieineaidd Prydeinig wrth gymharu disgyblion o wahanol gefndiroedd ethnig.

[3] Nid yw 'ieithoedd tramor modern eraill' yn cynnwys Ffrangeg, Almaeneg na Sbaeneg. Mae'n cynnwys: Arabeg, Bengaleg, Tsieinëeg, Iseldireg, Eidaleg, Siapanaeg, Groeg Fodern, Hebraeg Fodern, Perseg, Pwyleg, Portiwgaleg, Pwnjabeg, Rwsieg, Tyrceg ac Wrdw.

[4] Sylwer ym mhob un o'r pynciau hyn fod nifer y bechgyn sy'n sefyll y cyrsiau TGAU yn llai na nifer y merched.

112 Nid yw disgyblion mwy abl sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â disgyblion eraill sy'n fwy abl. Mae'r bwlch mewn perfformiad yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni pum gradd A* i A wedi bod tua 15% am y tair blynedd ddiwethaf (Llywodraeth Cymru, 2017c).

### Dilyniant rhwng cyfnodau allweddol

113 O 2011-2012 i 2015-2016, bu cynnydd yng nghyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefelau uwch na'r disgwyl mewn Cymraeg neu Saesneg a mathemateg mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, a aeth ymlaen i gyflawni'r lefelau uwch na'r disgwyl ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yn y pynciau hyn. Mae'r gyfran hon yn uwch mewn mathemateg nag ydyw mewn Cymraeg neu Saesneg.

114 Bu cynnydd dros bum mlynedd o 91.9% i 96.1% yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch na'r disgwyl ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn asesiadau athrawon[5], i ennill cymhwyster lefel 2[6] yng nghyfnod allweddol 4, ond gostyngodd ychydig yn 2017. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio[7] wedi bod yn gyson, sef tua 400 o bwyntiau. O'r disgyblion hynny a gyflawnodd y lefelau uwch na'r disgwyl ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, cyflawnodd tua hanner ohonynt bum gradd A* i A mewn TGAU (neu gyfwerth).

115 Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel 6 sy'n uwch na'r disgwyl ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 i ennill cymhwyster lefel 2 wedi aros yn debyg dros gyfnod, sef tua 95%. Fodd bynnag, gostyngodd y sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio yn sylweddol gan 10 pwynt canran yn ystod y cyfnod hwn o bum mlynedd. Llwyddodd lleiafrif o ddisgyblion a gyflawnodd y lefelau uwch na'r disgwyl ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 mewn asesiadau athrawon mewn Cymraeg neu Saesneg a mathemateg i gyflawni pum gradd A* i A yn 2015 a 2016.

Mae tua hanner y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch na'r disgwyl ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yn cyflawni gradd A* i A mewn TGAU (neu gyfwerth) mewn Saesneg, neu mewn Cymraeg, neu mewn mathemateg neu mewn gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 4. Mae llawer o'r disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch a'r disgwyl ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn cyflawni gradd A* i B.

[5] Mewn Saesneg a/neu Gymraeg a mathemateg
[6] Gradd A*-C mewn TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg
[7] Mesur o gyfartaledd yr wyth canlyniad TGAU gorau, neu gyfwerth

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Cofrestru'n gynnar** | Yr arfer i gofrestru disgyblion ar gyfer arholiadau TGAU cyn diwedd Blwyddyn 11 |
| **Consortiwm Canolbarth y De (CSC)** | Y gwasanaeth addysg ar y cyd ar gyfer awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg |
| **Cymhwyster lefel 2** | Graddau A*-C mewn TGAU, neu gyfwerth |
| **Cymwysterau Cymru** | Corff statudol annibynnol, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n rheoleiddio cymwysterau (heblaw graddau) yng Nghymru |
| **Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol** | Nod y cynllun hwn yw darparu cyfleoedd i ysgolion yng Nghymru ddatblygu rhaglen ddysgu arloesol a phwrpasol sydd wedi'i chynllunio i wella ansawdd addysgu a dysgu trwy brofiadau o ansawdd uchel yn y celfyddydau a phrofiadau creadigol. Mae'n un o flociau adeiladu allweddol 'Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau – cynllun gweithredu ar gyfer Cymru' (2015). Ariennir y cynllun ar y cyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru. |
| **ERW** | Y gwasanaeth addysg ar y cyd ar gyfer awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe |
| **Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh)** | Fframwaith medrau yw hwn a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Daeth yn statudol mewn ysgolion o Fedi 2013. Mae wedi'i gynllunio i helpu athrawon i ymgorffori llythrennedd a rhifedd ym mhob maes pwnc. |
| **Grant datblygu disgyblion** | Grant a ddarperir i leoliadau'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion gan Lywodraeth Cymru i wella deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal. Mae wedi'i fwriadu i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal disgyblion o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu llawn botensial. |
| **Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru (EAS)** | Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer y pum awdurdod lleol, sef Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen |
| **GwE** | Y gwasanaeth effeithiolrwydd a gwella ysgolion ar gyfer awdurdodau lleol Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam |

| | |
|---|---|
| **Gwobr Her NACE Cymru** | Marc ansawdd y mae'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Abl mewn Addysg yn ei dyfarnu i ysgolion trwy asesu ffurfiol yn erbyn y 'Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion mwy Galluog a Thalentog' |
| **mwy abl a thalentog** | Yng Nghymru, mae'r term 'mwy abl a thalentog' yn cyfeirio at ryw 20% o ddisgyblion sydd angen cyfleoedd cyfoethog ac estynedig i ddatblygu eu galluoedd neu'u doniau mewn un maes neu fwy (h.y. academaidd, ymarferol, creadigol ac artistig). |
| **mwyaf abl (neu eithriadol o abl)** | Yng Nghymru, mae 'mwyaf abl' neu 'eithriadol o abl' yn cyfeirio at oddeutu'r 2% uchaf o ddisgyblion sydd â'r gallu i gyflawni neu berfformio ar y lefelau uchaf. |
| **NACE** | Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Abl mewn Addysg |
| **OECD** | Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd |
| **PISA** | Y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr: arolwg rhyngwladol sy'n anelu at arfarnu systemau addysg ledled y byd trwy brofi medrau a gwybodaeth myfyrwyr 15 oed |
| **Rhwydwaith Seren** | Rhwydwaith o ganolfannau rhanbarthol, a'i nod yw cynorthwyo myfyrwyr mwyaf abl Cymru ym Mlwyddyn 12 i gyflawni eu potensial academaidd a chael cyfle i fynd i brifysgolion arweiniol |
| **Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion mwy Galluog a Thalentog (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)** | Dyfeisiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru set o Safonau i gynorthwyo ysgolion trwy ddarparu fframwaith clir ar gyfer darpariaeth o ansawdd da i'r ysgol gyfan ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog. Mae'r Safonau wedi'u bwriadu i helpu ysgolion i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer eu darpariaeth a sicrhau bod eu dull yn gynhwysol. |
| **Shakespeare in Schools** | Prosiect ehangu cyfranogiad ar gyfer ysgolion, dan arweiniad Academi Cerddoriaeth a Chelfyddydau Dramatig Llundain |
| **Ysgolion arloesi** | Ysgolion sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill ar hyn o bryd i ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru, ac arbrofi ag ef |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau


Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) (2003) *Cwricwlwm o Gyfle: Datblygu Potensial yn Berfformiad: Diwallu anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog.* Surrey: Cyhoeddiadau ACCAC. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.amdro.org.uk/SiteCollectionDocuments/Learning/School%20Improvement/More%20Able%20and%20Talented/Documents/WAG%20and%20ESTYN%20Documents/A%20curriculum%20of%20Opportunity%20(Cymraeg).pdf [Defnyddiwyd 10 Mai 2017]

Davies, D., Egan, D., Adams, I., Davis, S., Hodgkin, K., Duggan, B.,Wishart, J., Blakemore, K., Joubert, M. (2017) *EAS Research Programme 2016-2017, More able and talented learners: A joint research report*. Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Ymchwil Arad a Phrifysgol Bryste. Heb ei gyhoeddi.

Donaldson (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf [Defnyddiwyd 08 Mai 2017]

Estyn (2011) *Cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion cynradd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Cefnogi%20disgyblion%20mwy%20abl%20a%20dawnus%20mewn%20ysgolion%20cynradd%20-%20Gorffennaf%202011.pdf [Defnyddiwyd 10 Ebrill 2017]

Estyn (2012) *Cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion uwchradd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Cefnogi%20disgyblion%20mwy%20abl%20a%20dawnus%20mewn%20ysgolion%20uwchradd%20-%20Mehefin%202012.pdf [Defnyddiwyd 10 Ebrill 2017]

Estyn (2016a) *Arfer orau yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Creative%20arts%20at%20key%20stage%203%20and%204%20Thematic%20survey%20report%20cy.pdf [Defnyddiwyd 08 Mai 2017]

Estyn (2016b) *Adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortiwm Canolbarth y De.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Central%20South%20Consortium%20cy_0.pdf [Defnyddiwyd 08 Mai 2017]

Estyn (2016c) *Adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortiwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/EAS%20Consortium%20cy.pdf [Defnyddiwyd 08 Mai 2017]

Estyn (2016d) *Adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortiwm ERW*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/ERW%20Cy_0.pdf [Defnyddiwyd 08 Mai 2017]

Estyn (2016e) *Adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortiwm Gogledd Cymru.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/GwE%20cy.pdf [Defnyddiwyd 08 Mai 2017]

Estyn (2017) *Cymorth a chydweithio rhwng ysgolion – crynodeb a phapur trafod.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/School-to-school%20support%20and%20collaboration%20cy%20%28002%29.pdf [Defnyddiwyd 23 Tachwedd 2017]

Jerrim, J. a Shure, N. (2016) *Cyflawniad Pobl Ifanc 15 oed yng Nghymru: Adroddiad Cenedlaethol PISA 2015.* Sefydliad Addysg Coleg Prifysgol Llundain. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2016/161206-pisa-2015-cy.pdf [Defnyddiwyd 24 Ebrill 2017]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Cyflawni'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion mwy Galluog a Thalentog, Cylchlythyr Canllawiau Rhif: 006/2008.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/131016-meeting-the-challenge-cy.pdf [Defnyddiwyd 15 Mai 2017]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) *Cwricwlwm i bob dysgwr: Canllawiau i gynorthwyo athrawon dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://dera.ioe.ac.uk/11124/2/100426curriculumforlearnerscy.pdf [Defnyddiwyd 10 Mai 2017]

Llywodraeth Cymru a NACE Cymru (2012) *Disgyblion mwy galluog a thalentog: pecyn hyfforddiant.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130821-mat-training-pack-en.pdf [Defnyddiwyd 24 Ebrill 2017] (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cymru (2013) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Dogfen Wybodaeth Rhif: 120/2013.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130415-lnf-guidance-cy.pdf [Defnyddiwyd 24 Gorffennaf 2017]

Llywodraeth Cymru (2014) *Cymwys am oes: Cynllun gwella addysg ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 3 ac 19 oed yng Nghymru.* [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/qualified-for-life-an-educational-improvement-plan/?lang=cy [Defnyddiwyd 08 Mai 2017]

Llywodraeth Cymru (2015) *Arolwg i ganfod y ddarpariaeth ar gyfer y dysgwyr mwy galluog a thalentog yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/160106-mat-report-cy.pdf [Defnyddiwyd 10 Ebrill 2017]

Llywodraeth Cymru (2017a) *Cyfnod Allweddol 2: Canlyniadau fesul pwnc, blwyddyn a rhyw.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein] Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-2/results-by-subject-year-gender [Defnyddiwyd 11 Ionawr 2018]

Llywodraeth Cymru (2017b) *Cyfnod Allweddol 3: Canlyniadau fesul pwnc, blwyddyn a rhyw.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein] Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-3-Core-Subjects/results-by-subject-year-and-gender [Defnyddiwyd 11 Ionawr 2018]

Llywodraeth Cymru (2017c) *Cronfa Ddata Arholiadau Cymru*. Heb ei chyhoeddi.

Llywodraeth Cymru (2017d) *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl 2017-21 Cynllun gweithredu.* [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/170926-education-in-wales-cy.pdf [Defnyddiwyd 10 Tachwedd 2017]

Llywodraeth Cymru (2017e) *Asesiadau athrawon o bynciau di-graidd y Cwricwlwm Cenedlaethol: Cymru 2017.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2017/170809-national-curriculum-teacher-assessments-non-core-subjects-2017-cy.pdf [Defnyddiwyd 22 Chwefror 2018]

Llywodraeth Cymru (2017f) *Canlyniadau fesul hawl i brydau ysgol am ddim a rhyw.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-3-Core-Subjects/results-by-freeschoolmealentitlement-gender [Defnyddiwyd 11 Ionawr 2018]

Llywodraeth Cymru (2017g) *Cyfnod allweddol 2: Canlyniadau fesul hawl i brydau ysgol am ddim a rhyw.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-2/results-by-freeschoolmealentitlement-gender [Defnyddiwyd 11 Ionawr 2018]

Llywodraeth Cymru (2017h) *Ymgeisiadau a chanlyniadau TGAU (disgyblion ym Mlwyddyn 11/ disgyblion 15 oed) fesul grŵp pwnc a rhyw.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4/gcseentriesandresultspupilsaged15only-by-subjectgroup-gender [Defnyddiwyd 11 Ionawr 2018]

Llywodraeth Cymru (2018). *Gwerthusiad o Rwydwaith Seren*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-seren-network/?skip=1&lang=cy [Defnyddiwyd 19 Chwefror 2018]

Sperring, R., Davey, J., Jones, K., ac Anderson, T. (2017) *Arferion Cofrestru Cynnar a Lluosog ar gyfer Arholiadau TGAU yng Nghymru.* Caerdydd: Cymwysterau Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://qualificationswales.org/media/2826/arferion-cofrestru-cynnar-a-lluosog-ar-gyfer-arholiadau-tgau-yng-nghymru-2017.pdf [Defnyddiwyd 11 Ionawr 2018]